

Asedau Gwledig: Golwg o Gymru ar Bolisi ac Ymarfer

Dr Danielle Hutcheon, Dr Sarah Nason, Dr Bobby Macaulay, Dr Margaret Currie, Dr Davide Natalini, John Hallett, Kieran Sinclair, Richard Osterhus



Cynnwys

Crynodeb gweithredol	3
Cyflwyniad	6
Nodau ac Amcanion	6
Y cyd-destun polisi ar gyfer caffael asedau cymunedol yng Nghymru	7
Astudiaeth Cymru	8
Astudiaeth achos gwledig Cymru	8
Cyfweliadau ag awdurdodau cyhoeddus a rhanddeiliaid allweddol	9
Y digwyddiad Cyfnewid Gwybodaeth (KE) cenedlaethol	10
Canfyddiadau	10
Cymhellion i gymunedau gwledig yng Nghymru gymryd rheolaeth dros asedau cyhoeddus	11
Cymhellion i awdurdodau cyhoeddus drosglwyddo asedau i gymunedau	13
Y prif rwystrau sy'n atal ymgysylltu â'r gymuned yn ystod prosesau caffael asedau	14
Y prif ffactorau hwyluso ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned yn ystod prosesau caffael asedau	22
Effeithiau prosesau caffael asedau ar rymuso, cydnerthedd a llesiant cymunedau gwledig	26
Casgliadau ac argymhellion	28

Ariannwyd y prosiect hwn gan gydweithrediad rhwng yr Academi Brydeinig a Sefydliad Nuffield ar Ddeall Cymunedau.

Ymddiriedolaeth elusennol annibynnol yw Sefydliad Nuffield a'i chenhadaeth yw hyrwyddo lles cymdeithasol. Mae'n ariannu ymchwil sy'n llywio polisi cymdeithasol, yn bennaf ym maes Addysg, Llesiant a Chyfiawnder. Sefydliad Nuffield yw sylfaenydd a chyd-gyllidwr Cyngor Biofoeseg Nuffield, Sefydliad Ada Lovelace ac Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. Y Sefydliad sydd wedi ariannu'r prosiect hwn, ond safbwyntiau'r awduron yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd y Sefydliad. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.nuffieldfoundation.org.

Yr Academi Brydeinig yw academi genedlaethol y DU ar gyfer y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol. Mae'n ysgogi'r disgyblaethau hyn i ddeall y byd a llunio dyfodol mwy disglair. O ddeallusrwydd artiffisial i'r newid yn yr hinsawdd, o adeiladu ffyniant i wella llesiant – dim ond drwy ddyfnhau dealltwriaeth o bobl, diwylliannau a chymdeithasau y gellir datrys heriau cymhleth heddiw. Er mwyn mynd i'r afael â heriau cymhleth deallusrwydd artiffisial i newid yn yr hinsawdd mae angen dealltwriaeth ddyfnach o bobl, diwylliannau a chymdeithasau. Mae'r Academi'n buddsoddi mewn ymchwilwyr a phrosiectau ledled y DU a thramor, yn ymgysylltu'r cyhoedd â syniadau a dadleuon newydd, ac yn tynnu ynghyd ysgolheigion, llywodraeth, busnes a chymdeithas sifil i ddylanwadu ar bolisi er budd pawb. I gael rhagor o wybodaeth am eu gwaith, ewch i www.thebritishacademy.ac.uk

Crynodeb gweithredol

Ar draws pob awdurdodaeth yn y DU, mae caffael asedau lleol, fel tir ac adeiladau, yn cael ei hyrwyddo ar lefel polisi ac awdurdodau cyhoeddus fel ffordd werthfawr o gryfhau cymunedau. Er bod ymchwil wedi canfod y gall bod yn berchen ar asedau cymunedol gael effaith gadarnhaol ar gymunedau, dydyn ni ddim yn gwybod cymaint am yr amodau lle mae prosesau caffael asedau yn arwain (neu ddim yn arwain) at fwy o rymuso, llesiant a gwytnwch.

Mae'r prosiect 'Rural Assets: Policy and Practice Insights from the Devolved Nations' yn ceisio **deall effeithiau prosesau caffael asedau cymunedol ar rymuso, gwytnwch a lles cymunedau gwledig**. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, casglwyd data sylfaenol drwy gyfweiliadau a digwyddiadau Cyfnewid Gwybodaeth gydag aelodau o gymunedau gwledig, awdurdodau cyhoeddus, sefydliadau cymorth cenedlaethol allweddol a llunwyr polisi o bob rhan o'r DU. Bydd yr adroddiad hwn yn mynd ati'n benodol i amlinellu canfyddiadau allweddol astudiaeth Cymru. Mae'r Prif Allbwn Cyhoeddus yn darparu canfyddiadau o bob cwr o'r DU, a manylion gweithgarwch ehangach sy'n ymwneud â'r prosiect Asedau Gwledig, fel yr elfen cydgynhyrchu cymunedol.

Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Y prif sbardun er mwyn i gymunedau gwledig yng Nghymru fynd ar drywydd caffael asedau oedd diwallu anghenion y gymuned nad oedd yn cael eu diwallu gan wasanaethau'r cyngor, rheoli a chymryd perchnogaeth dros ddatblygiad economaidd-gymdeithasol lleol, a diogelu cymunedau Cymraeg eu hiaith. Y prif ffactorau a sbardunodd awdurdodau cyhoeddus i drosglwyddo asedau i gymunedau oedd arbedion ariannol/sy'n gysylltiedig â chostau.

Y prif rwystrau sy'n atal cymunedau gwledig rhag cymryd rhan mewn prosesau caffael asedau yng Nghymru:

- Diffyg capasiti mewn ardaloedd gwledig oherwydd bod llai o boblogaeth, diffyg sgiliau a gwybodaeth, a nifer cyfyngedig o wirfoddolwyr ar gael;
- Sicrhau bod prosiectau asedau cymunedol yn cynrychioli anghenion a dymuniadau cymunedau cyfan, nid dim ond y rhai sy'n gweithredu fwyaf ym maes datblygu cymunedol;
- Diffyg proses glir a chydlynol ar lefel awdurdod lleol ar gyfer caffael asedau cymunedol, gan gynnwys arferion amrywiol ymysg gwahanol lywodraethau lleol, a lefelau diangen o fiwrocratiaeth;
- Cynghorau'n rhy gyndyn i gymryd risgiau neu'n gwrthwynebu'r cysyniad o drosglwyddo a pherchenogi asedau cymunedol, a diffyg ymddiriedaeth yng ngallu cymunedau gwledig i ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau;
- Cyfyngiadau ar amser ac adnoddau awdurdodau lleol i gymryd rhan effeithiol mewn prosesau trosglwyddo asedau, a'r angen am hyfforddiant penodol o fewn awdurdodau i gynyddu dealltwriaeth o'r broses;
- Diffyg deddfwriaeth a chanllawiau effeithiol, a'r angen am fframwaith polisi cadarn ar drosglwyddo asedau cymunedol;
- Opsiynau cyllido cyfyngedig i gymunedau gwledig brynu, gweithredu a chynnal asedau lleol gan awdurdodau lleol.

Y prif ffactorau sy'n hwyluso cymunedau gwledig i gymryd rhan mewn prosesau caffael asedau yng Nghymru:

- Awdurdodau lleol cefnogol sy'n cefnogi ac yn annog trosglwyddo asedau cymunedol;
- Cefnogaeth mudiadau cefnogi lleol a chenedlaethol sy'n amhrisiadwy wrth dywys cymunedau gwledig drwy'r broses;
- Sgiliau a chymhelliant cymunedau gwledig, yn enwedig cymunedau sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth broffesiynol sydd eu hangen i gwblhau'r prosesau hyn.

Effeithiau prosesau caffael asedau ar rymuso, cydnherthedd a llesiant cymunedau gwledig:

Dangosodd ein tystiolaeth fod prosesau caffael asedau yn **grymuso** cymunedau gwledig drwy:

- Dod â phobl at ei gilydd ac atgyfnerthu treftadaeth a hunaniaeth cymunedau gwledig;
- Gwybod bod gan gymunedau'r hawliau a'u bod yn gallu cael mynediad at asedau a bod yn berchen arnynt;
- Ysgogi cyd-gynhyrchu ac ymgysylltu rhwng aelodau'r gymuned;
- Rhoi llais a llwyfan i bobl gymryd rhan mewn newid a datblygiad yn lleol;

Fodd bynnag, roedd cymunedau gwledig yn teimlo eu bod yn cael eu **dadrymuso** gan y canlynol:

- Natur anrhagweladwy neu anhysbys y broses ei hun, sy'n gallu arwain at ganlyniadau negyddol i gymunedau.

Teimlai cymunedau gwledig bod prosesau caffael asedau yn cael effaith gadarnhaol ar eu **cydnherthedd** drwy:

- Rhoi'r cyfle i greu gwasanaethau a chyfleusterau y gallai cynghorau fod wedi cael eu cau fel arall;

Fodd bynnag, teimlai cymunedau gwledig fod prosesau caffael asedau **yn cael effaith negyddol ar eu cydnherthedd** drwy:

- Rhoi gormod o faich ar nifer fach o wirfoddolwyr sy'n arwain y prosesau hyn;
- Prosesau sy'n heriol ac yn llafurus, sydd angen llawer o wydnwch i'w cwblhau.

Teimlai cymunedau gwledig bod prosesau caffael asedau yn cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant drwy:

- Dod â'r gymuned at ei gilydd at ddiben cyffredin a chryfhau cysylltiadau cymdeithasol;
- Rhoi egni newydd i gymunedau a chynyddu ysbryd cymunedol;

Fodd bynnag, teimlai cymunedau gwledig fod prosesau caffael asedau **yn cael effaith negyddol ar eu llesiant** drwy:

- Prosesau cymhleth a hirwyntog sy'n arwain achosi blinder i wirfoddolwyr;
- Y straen a'r pryder ychwanegol ynghylch cynaliadwyedd asedau yn y dyfodol mewn cyd-destunau lle mae cymunedau'n ymgymryd ag asedau oherwydd y bygythiad eu bod yn mynd i gau, yn hytrach na'u bod yn dewis gwneud hynny.

Argymhellion

Gan ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, rydym yn darparu'r argymhellion canlynol:

- Gall cymunedau gwledig chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau allweddol sydd wedi'u teilwra i anghenion allweddol poblogaethau lleol, ac yn aml gellir eu darparu mewn ffyrdd mwy effeithlon, fel y mae ein hastudiaeth achos yn y Trallwng yn dangos. I wneud hyn, mae angen cymorth polisi ar gymunedau sy'n ystyried y cyd-destun gwledig, ac sy'n hwyluso mynediad at gyllid, yn ogystal ag uwchsgilio a meithrin gallu grwpiau cymunedol lleol i'w galluogi i fynd ar drywydd asedau cyhoeddus.
- Mae'r canfyddiadau'n dangos bod angen i Lywodraeth Cymru gryfhau a thynhau pwerau a chanllawiau deddfwriaethol, yn fwyaf penodol, y gofyniad am fframwaith cenedlaethol effeithiol ar gyfer caffael asedau cymunedol.
- Mae ein hymchwil yn rhoi pwyslais penodol bod angen prosesau caffael asedau safonol, syml a chyson ar draws pob llywodraeth leol yng Nghymru. Gellid cynorthwyo hyn drwy osod dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus i gydymffurfio â chanllawiau deddfwriaethol. Ar ben hynny, mae angen cymorth a hyfforddiant mewn perthynas ag adnoddau ar awdurdodau lleol i'w galluogi i ymgysylltu'n llawn â chaffael asedau cymunedol a'u gwreiddio yn eu harferion bob dydd.
- Byddai cymunedau gwledig yn cael eu cefnogi drwy gyflwyno cyllid cyfalaf strategol yn benodol ar gyfer caffael asedau cymunedol.

Cyflwyniad

Mae cymunedau gwledig ledled y DU yn wynebu heriau hirsefydlog, fel pobl ifanc yn allfudo ac ynysu daearyddol, sy'n effeithio ar ddatblygiad economaidd-gymdeithasol lleol ac yn bygwth cydnerthedd a llesiant cymunedau. Gallai digwyddiadau cyfoes fel Brexit, COVID a newid yn yr hinsawdd fod yn gwaethygu'r materion hyn, gan adael cymunedau gwledig yn fwy agored i anghyfiawnderau ac anghydraddoldebau gofodol. Ar draws pob awdurdodaeth yn y DU, mae caffael asedau lleol, fel tir ac adeiladau, yn cael ei hyrwyddo ar lefel polisi ac awdurdodau cyhoeddus fel ffordd werthfawr o gryfhau rhwydweithiau lleol â'r ymdeimlad o rymuso cymunedau sy'n cyfrannu at gydnerthedd a llesiant. Er bod ymchwil wedi canfod y gall asedau cymunedol wella llesiant mewn cyd-destun gwledig, dydyn ni ddim yn gwybod cymaint am yr amodau lle mae prosesau caffael asedau yn arwain (neu ddim yn arwain) at fwy o rymuso, llesiant a gwytnwch.

Roedd ein prosiect '*Rural Assets: Policy and Practice from the Devolved Nations*' yn astudiaeth gymharol newydd a oedd yn defnyddio gwybodaeth a gydgyhyrchwyd am bolisi, prosesau a gweithredu mewn perthynas â chaffael asedau. Drwy gynnal dadansoddiad polisi cynhwysfawr, casglu data sylfaenol o astudiaethau achos cymunedau gwledig, a dull sy'n cyd-gynhyrchu canlyniadau gyda chymunedau, fe wnaethom ni geisio nodi'r bobl, y systemau a'r strwythurau dan sylw, gan dynnu sylw at y rhwystrau a'r ffactorau hwyluso sy'n dod i'r amlwg yn y disgrifiadau naratif o lwybrau tuag at gaffael asedau cymunedol ar draws gwahanol awdurdodaethau'r DU. Tra cynhaliwyd astudiaeth ledled y DU, mae'r adroddiad hwn yn mynd ati'n benodol i amlinellu canfyddiadau allweddol o Gymru.

Nodau ac Amcanion

Nod yr astudiaeth Asedau Gwledig oedd ***deall effeithiau prosesau caffael asedau cymunedol ar rymuso, gwytnwch a lles cymunedau gwledig.***

Drwy fynd ati'n gymharol i ganfod y bobl, y prosesau a'r strwythurau sy'n gysylltiedig â chaffael asedau cymunedol yng Nghymru, ceisiwyd canfod beth sy'n gweithio a beth nad yw'n gweithio ym mhob cam allweddol o'r broses. I gyflawni hyn, roedd gan y prosiect yr amcanion canlynol:

1. *Nodi strwythurau a phrosesau cyfredol ar lefel polisi ac ymarfer ar gyfer caffael asedau cymunedol a'u rhoi ar waith mewn cyd-destunau gwledig;*
2. *Deall profiad bywyd cymunedau gwledig a fu'n ymwneud â phrosesau caffael asedau a'r effeithiau ar y graddau roeddent wedi eu grymuso, yn gydnerth a'u llesiant;*
3. *Nodi ffactorau hwyluso a rhwystrau penodol i gymunedau gwledig o ran ymgymryd â phrosesau caffael asedau;*
4. *Hyrwyddo dysgu ar y cyd a chreu atebion gyda chymunedau, llunwyr polisïau ac ymarferwyr ar sut i alluogi grymuso, gwytnwch a lles mewn cymunedau gwledig drwy brosesau caffael asedau.*

Prif Ymchwilydd

Dani Hutcheon, Prifysgol Glasgow
Caledonian

Y Tîm Ymchwil

Sarah Nason, Prifysgol Bangor

Bobby Macaulay, Coleg Perth
Prifysgol Ucheldir ac Ynysoedd yr
Alban

Margaret Currie, Sefydliad James
Hutton

Davide Natalini, Prifysgol Anglia
Ruskin

John Hallett,
CommunityThinking.org

Kieran Sinclair, Prifysgol Glasgow
Caledonian

Richard Osterhus, Cyngor Dosbarth
Derry a Strabane

Y cyd-destun polisi ar gyfer caffael asedau cymunedol yng Nghymru

Nid oes deddfwriaeth benodol yng Nghymru sy'n rhoi'r hawl i gymunedau brynu, gwneud cynnig am, neu geisio trosglwyddo tir neu asedau eraill. Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn berthnasol i Gymru a Lloegr, ond nid yw ei darpariaethau wedi cael eu dwyn i rym yng Nghymru hyd yma. Fodd bynnag, mae Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn digwydd yng Nghymru. Dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003, gall awdurdodau lleol yng Nghymru waredu tir sy'n is na gwerth y farchnad lle mae'r amodau a drafodir uchod mewn perthynas â Lloegr, o ran llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, yn cael eu bodloni, a lle nad yw gwerth anghyfyngedig y tir yn fwy na £2 filiwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu "canllaw arfer gorau" drwy Ystadau Cymru,¹ a sefydlwyd i alluogi, cefnogi ac annog rhagoriaeth o ran rheoli asedau cydweithredol yn y sector cyhoeddus. Mae'r canllaw Ystadau yn gosod caffael asedau yng nghyd-destun cyrff cyhoeddus yn gwaredu asedau sy'n cael ei gymell gan gynta ariannol; gan nodi: "Mae Trosglwyddiadau Asedau'n golygu y gall y gymuned fod yn berchen ar gyfleusterau a allai gael eu cau fel arall os nad yw'r Awdurdod Lleol neu Awdurdodau Cyhoeddus eraill yn gallu eu hariannu mwyach" (Ystadau Cymru, 2019: 3). Yn 2014, argymhellodd Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru fod "Llywodraeth Cymru'n ystyried deddfwriaeth i alluogi cymunedau i restru eu hasedau cymunedol a chael y cynnig cyntaf ar asedau dan berchnogaeth gymunedol. Mewn unrhyw ddeddfwriaeth o'r fath, dylid ystyried cynnwys clybiau chwaraeon fel asedau cymunedol" (Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru 2014: Argymhelliad 11). Mewn ymateb, daeth y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ar y pryd i'r casgliad bod darpariaethau Lloegr (o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011) wedi methu gan nad ydynt yn galluogi cymunedau i orfodi gwerthu ased,² ac eto ni chymerwyd unrhyw gamau deddfwriaethol yng Nghymru. Ddechrau 2022 daeth y Sefydliad Materion Cymreig i'r casgliad bod gan gymunedau yng Nghymru lai o hawliau statudol i gaffael tir ac asedau eraill na'r rheini yn yr Alban neu yn Lloegr, er gwaethaf cefnogaeth eang i gael o leiaf yr un lefel o fesurau grymuso cymunedol ag yn Lloegr, a'r posibilrwydd o fynd ymhellach na hynny (IWA, 2022). Ym mis Mai 2022, lansiodd Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai Senedd Cymru ymchwiliad i Asedau Cymunedol. Cafwyd adroddiad y Pwyllgor hwn ym mis Hydref 2022. Ymhlith ei argymhellion, nodwyd y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sefydlu comisiwn i ysgogi meddwl arloesol am berchnogaeth gymunedol ar dir ac asedau yng Nghymru; y dylid adolygu a diweddarau Canllawiau Trosglwyddo Asedau Cymunedol; ac y dylai Llywodraeth Cymru wneud trefniadau i ystyried opsiynau ar gyfer datblygu deddfwriaeth benodol i Gymru, wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion Cymru.³ Roedd Llywodraeth Cymru yn derbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion mewn egwyddor, ond nododd fod pwysau amser a chyllideb yn gyfyngiad.⁴

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rhaid i gyrrff cyhoeddus yng Nghymru gyflawni datblygu cynaliadwy, sy'n cynnwys gosod a chyhoeddi amcanion llesiant a chymryd pob cam rhesymol i'w cyflawni.⁵ "Ystyr datblygu cynaliadwy yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gyda'r nod o gyflawni'r amcanion llesiant".⁶ "Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn mynnu bod corff yn gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu

¹Arferai Ystadau gael eu galw'n Weithgor Asedau Cenedlaethol: <https://llyw.cymru/ystadau-cymru>

²Lesley Griffiths, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Datganiad Ysgrifenedig - Asedau mesurau Gwerth Cymunedol a gynhwysir yn Neddf Lleoliaeth 2011 (14 Hydref 2014), ar-lein yn: <https://gov.wales/regtenstatement-assets-community-values-sustain-localism-act-2011>

³<https://senedd.cymru/media/jikjcped/cr-ld15392-w.pdf>

⁴ <https://senedd.wales/media/l1tiyu3z/gen-ld15583-e.pdf>

⁵Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, adran 3.

⁶Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, adran 5.

diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau".⁷ Mae saith nod llesiant, ac un ohonynt yw "Cymru o gymunedau cydlynus" sy'n cynnwys "cymunedau atyniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da".⁸ Wrth gyflawni dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rhaid i gyrff cyhoeddus weithredu mewn pum ffordd benodol, sef y "pum ffordd o weithio", ac un ohonynt yw "cydweithredu" sef, "sut y gallai gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu sut y mae gwahanol rannau o'r corff yn gweithredu gyda'i gilydd) gynorthwyo'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion".⁹ Er nad yw'n cyfeirio'n benodol at drosglwyddo asedau, gallai nifer o ddyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn enwedig yr angen i gyrff cyhoeddus weithredu ar y cyd, helpu cymunedau sy'n ceisio cymorth gan gyrff cyhoeddus i drosglwyddo asedau.

Astudiaeth Cymru

Fel rhan o'r prosiect Asedau Gwledig, casglwyd a dadansoddwyd data sylfaenol er mwyn deall yn well y prif ffactorau hwyluso a'r rhwystrau sy'n atal cymunedau gwledig rhag cymryd rhan mewn prosesau caffael asedau cymunedol, ac i archwilio sut y gall cymryd rhan yn y prosesau hyn effeithio ar y graddau y maent wedi eu grymuso, eu gwynwch a'u lles. Casglwyd data gan ddefnyddio tri dull penodol:

- (1) Cyfweiliadau manwl a gwaith maes gydag astudiaeth achos mewn cymuned wledig a oedd wrthi'n mynd drwy broses trosglwyddo asedau o awdurdod cyhoeddus;
- (2) Cyfweiliadau manwl gydag awdurdod cyhoeddus a rhanddeiliaid cenedlaethol allweddol o bob rhan o Gymru;
- (3) Casglwyd data mewn digwyddiad Cyfnewid Gwybodaeth penodol i Gymru a ddaeth â chymunedau gwledig, ymarferwyr a llunwyr polisiau at ei gilydd.

Astudiaeth achos gwledig Cymru

Tref farchnad yw'r Trallwng, gyda phoblogaeth o 6,632 yn sir Powys, Cymru. Ystyr yr enw yw 'y tir corsiog neu'r tir sy'n suddo'. Mae'r dref bedair milltir o'r ffin rhwng Cymru a Lloegr ac ar dir isel ar lannau Afon Hafren. Mae'r Trallwng yn hygyrch ar y rheilffordd a'r bws. Y Trallwng yw un o brif ganolfannau cyflogaeth y sir ac mae'n ganolfan ddiwydiannol allweddol, gyda'r sector cyhoeddus yn cyflogi llawer o'i phoblogaeth. Y Trallwng sydd â'r nifer uchaf o blant yn cael prydu ysgol am ddim yn y sir – dangosydd pendant o amddifadedd, wedi'i atgyfnerthu ymhellach gan sgôr isel ar Fyngai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD, 2019). Darperir iechyd a gofal cymdeithasol a chymorth drwy Gyngor Sir Powys ac amrywiaeth o ddarparwyr a chyfleusterau gofal preifat, ond dangosodd ymgynghoriad cyhoeddus bod diffyg gwasanaethau cyffredinol yn yr ardal. Mae mudiadau gwirfoddol yn darparu ystod gyfyngedig o gefnogaeth, ond mae'r ddarpariaeth yn sylweddol is nag mewn trefi eraill ym Mhowys.

Roedd Canolfan Anne Holloway yn arfer bod yn ganolfan ddydd, a oedd yn darparu gwasanaethau gofal i'r henoed yn bennaf. Cyngor Sir Powys oedd perchennog gwreiddiol yr ased, ac yna cafodd ei drosglwyddo i Gyngor Tref y Trallwng ddechrau 2015. Roedd Canolfan Anne Holloway yn un o nifer o asedau cyhoeddus ledled y sir a gafodd ei gynnig i gynghorau cymuned lleol neu grwpiau â

⁷Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, adran 5(1).

⁸Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, adran 4.

⁹Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, adran 5(2)(d).

diddordeb oherwydd y risg y gallent gau oherwydd toriadau yn y gyllideb. Caewyd y ganolfan gan Gyngor Tref y Trallwng ar 30 Tachwedd 2020 oherwydd y golled ariannol a wynebwyd yn ystod pandemig COVID-19. Ers hynny, mae'r GIG a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill wedi defnyddio'r cyfleuster ar gyfer storio. Er bod y cyfleuster yn eithaf hen ffasiwn a bod angen rhywfaint o waith adnewyddu, mae'n cynnwys sawl gofod, fel uned trin gwallt, cegin, gwahanol fannau cymdeithasol, a chyfleusterau cawod a thoiled sydd wedi'u dylunio ar gyfer pobl anabl.

Mudiad cymunedol yw **Welshpool Community Haven** sy'n gweithio tuag at fod yn sefydliad corfforedig elusennol (CIO). Sefydlwyd y mudiad gan grŵp o ofalwyr lleol a oedd yn cydnabod bod prinder enbyd o wasanaethau iechyd a chymdeithasol yn y Trallwng ar ôl cau Canolfan Ann Holloway. Mae'r mudiad yn cynnwys pedwar ymddiriedolwr ac un aelod o staff cyflogedig rhan-amser, ac mae'r aelodau'n cynnwys gofalwyr a'r rhai sy'n derbyn gofal sy'n frwd dros gefnogi pobl yn y Trallwng a'r cylch. Mae Credu (mudiad cefnogi ar gyfer gofalwyr ifanc ac oedolion sy'n ofalwyr) a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO) hefyd yn rhoi cefnogaeth i The Haven.

Mae ymddiriedolwyr The Haven eisiau adeiladu canolfan gynhwysol a fyddai'n dod â gwasanaethau gofal a chymorth gwahanol, gan gynnwys ar gyfer y rheini sy'n anabl neu sydd ag anawsterau dysgu, o bob rhan o'r gymuned i un lleoliad hygyrch a chanolog. Byddai'r ganolfan hefyd yn dod yn ganolbwynt cymdeithasol i'r gymuned. Adeg yr ymchwil, roedd the Haven yn rhentu lle yn y ganolfan gan Gyngor Tref y Trallwng am ychydig oriau'r wythnos i ddarparu amrywiaeth fach o weithgareddau i'r gymuned. Roeddent wrthi'n ceisio negodi trosglwyddiad asedau drwy brydles hirdymor ar yr adeilad, a fyddai'n caniatáu iddynt ddarparu nifer o wahanol wasanaethau gofal cymdeithasol proffesiynol ar gyfer pob rhan o'r gymuned. Er bod y sefydliad wedi datblygu cysylltiadau cryfach gyda'r Cyngor Tref, roeddent wedi wynebu sawl her ar eu taith i gyrraedd y pwynt hwn, gan gynnwys dod o hyd i'r swyddogion cyngor cywir i siarad â hwy a chynnal llinellau cyfathrebu uniongyrchol. Roedd bygythiad parhaus hefyd y gallai'r cyngor gynnig yr adeilad i brynwr yn y sector preifat neu'r sector cyhoeddus. Roedd hyn yn golygu ei bod yn dal yn anodd rhagweld canlyniad y trosglwyddiad ased, ac roedd y sefydliad yn teimlo'n ddiymadferth, heb lawer o reolaeth dros unrhyw ran o'r broses.

Cynhaliwyd cyfweiliadau manwl gyda chwe aelod o'r gymuned a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â'r broses barhaus o gaffael asedau cymunedol, gan gynnwys ymddiriedolwyr The Haven, gwirfoddolwyr a gofalwyr/defnyddwyr gwasanaeth lleol o'r ardal.

Cyfweiliadau ag awdurdodau cyhoeddus a rhanddeiliaid allweddol

Mae 22 prif gyngor yng Nghymru, sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau lleol yn eu hardaloedd, gan gynnwys gofal cymdeithasol, tai a chynllunio. O dan y prif gynghorau, ceir 734 o gynghorau cymuned a thref, nad oes gofyniad cyfreithiol arnynt i ddarparu gwasanaethau penodol, ond sy'n gyfrifol am gynnal a chadw mannau lleol, fel parciau, llwybrau troed a neuaddau pentref.

Cynhaliwyd cyfweiliadau manwl gyda chynrychiolwyr o un prif gyngor a thri sefydliad cymorth cenedlaethol. Roedd un o'r sefydliadau cymorth cenedlaethol hefyd yn gallu caffael asedau ar ran cymunedau mewn rôl gwarcheidwad asedau ac roedd ganddynt brofiad uniongyrchol o ymgymryd â phrosesau caffael asedau. Roedd y cyfweiliadau hyn yn caniatáu i ni gael darlun cenedlaethol o brosesau caffael asedau cymunedol ac i ba raddau y mae cymunedau gwledig yn cael eu cynnwys a'u cefnogi.

Y digwyddiad Cyfnewid Gwybodaeth (KE) cenedlaethol

Ar 26 Chwefror 2024, fe gynhaliom ddigwyddiad cyfnewid gwybodaeth ar-lein o'r enw 'Community Assets: Policy and Practice in Wales – what's next?', sy'n dod â chymunedau gwledig, ymarferwyr, awdurdodau lleol a llunwyr polisi ynghyd. Yn ystod ein hymchwil, cynhaliodd Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai Senedd Cymru ymchwiliad i asedau cymunedol. Yn dilyn hyn, cyhoeddwyd cyfres o 16 o argymhellion, ac mewn ymateb roedd Llywodraeth Cymru wrthi'n sefydlu comisiwn i ddatblygu cynllun gweithredu. Un o'r prif argymhellion oedd dysgu ar y cyd gan wledydd eraill, felly pwrpas y digwyddiad cyfnewid gwybodaeth oedd:

1. Rhannu ymchwil, polisi ac ymarfer cyfredol o bob un o wledydd y DU;
2. Trafod y camau nesaf ar gyfer polisi ac ymarfer caffael asedau cymunedol yng Nghymru.

Roedd y cyflwynwyr yn cynnwys unigolion a oedd yn ymwneud ag astudiaethau achos caffael asedau cymunedol yng Nghymru ac yn Lloegr yn ogystal â chynrychiolwyr o Lywodraeth yr Alban, Ymddiriedolaethau Datblygu Gogledd Iwerddon a sefydliadau cymorth cenedlaethol allweddol yng Nghymru. Roedd 48 o gyfranogwyr yn bresennol yn y digwyddiad, wedi'u rhannu yn ôl sector a'r math o sefydliad isod:

Sector/sefydliad	Nifer y cyfranogwyr
Aelodau o gymunedau gwledig (yn cynrychioli unigolion neu grwpiau/cynghorau cymuned)	22
Asiantaethau cymorth cymunedol cenedlaethol neu leol	11
Cynrychiolwyr awdurdodau lleol	12
Lluniwr polisiâu	3

Drwy gydol y digwyddiad gofynnwyd i gyfranogwyr bwysu a mesur ein cwestiynau ymchwil allweddol, a chasglwyd data gan ddefnyddio nodiadau, Byrddau Miro a mentimeter.

Canfyddiadau

Cyfunwyd canfyddiadau o gyfweiliadau gyda'n hastudiaeth achos wledig, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol, a'n digwyddiad Cyfnewid Gwybodaeth (KE), ac maent wedi cael eu hamlinellu isod. Yn gyntaf oll, rydym yn trafod y cymhellion dros drosglwyddo asedau, ar ran y grŵp cymunedol a'r awdurdod cyhoeddus. Bydd y rhwystrau a'r ffactorau hwyluso canfyddedig i'r broses yn cael eu cyflwyno wedyn, cyn i ni drafod effeithiau'r broses ar rymuso, gwytnwch a lles cymunedau gwledig.

Cymhellion i gymunedau gwledig yng Nghymru gymryd rheolaeth dros asedau cyhoeddus

Diwallu anghenion y gymuned nad yw gwasanaethau'r cyngor yn cael eu diwallu

Bwriad y grŵp cymunedol yn ein hastudiaeth achos wledig oedd caffael yr ased i ddarparu gofod canolog, aml-ddefnydd, cynhwysol a allai fynd i'r afael â holl heriau iechyd a chymdeithasol y gymuned o dan un to, o ystyried nad oedd gwasanaethau digonol ar gael yn yr ardal.

"...mae hon yn ganolfan, yn ganolbwynt i bawb...mae gan yr Anne Holloway ofod mawr; mae gan yr Anne Holloway ofod bach; mae yna ystafell ymolchi, mae yna doiledau, mae yna ystafell haul fendigedig, mae yna gegin fawr iawn. Mae yna ddrysau sy'n ddigon llydan i'r cadeiriau olwyn mwyaf fynd drwyddynt. Oherwydd ei fod yn adeilad pwrpasol ar gyfer cynnwys pawb" (Cyfwelai 2 yr astudiaeth achos cymunedol)

"Rwy'n meddwl bod cael hwn yn ôl ar agor, fel cyfleuster i'r gymuned, ar gyfer yr holl grwpiau gwahanol. Bydd yn fuddiol dros ben. Mae yna fannau cyfarfod eraill yn y dref, ond dyma'r unig un sy'n gwbl hygyrch" (Cyfwelai 3 yr astudiaeth achos cymunedol)

Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr astudiaeth achos cymunedol yn teimlo nad oedd y cyngor yn darparu gwasanaethau a oedd yn diwallu anghenion amrywiol y gymuned. Fel y dywedodd un aelod o'r gymuned: *"dydyn nhw ddim yn teimlo'n angerddol amdano. Ac felly, does ganddyn nhw ddim yr amser na'r ymrwymiad...i'w neilltuo i hyn. Ond, rydyn ni'n hapus i wneud hynny"*. Nodwyd hefyd bod nifer o grwpiau wedi diflannu ers COVID:

"Daeth cymaint o'n grwpiau i ben. Roedd yna bethau fel grwpiau MS, neu glybiau strôc, a daeth cynifer ohonynt i ben a dydyn nhw heb ailgydio ynddi ers Covid. Ac felly, roedden ni'n dal i ddweud bod angen y ganolfan arnom ni. Roeddem i gyd yn gwybod bod y ganolfan yno'n segur" (Cyfwelai 1 yr astudiaeth achos cymunedol).

Roedd y gymuned yn awyddus i greu canolbwynt i wella ymwybyddiaeth o grwpiau a gwasanaethau, darparu cyfleoedd iddynt gysylltu â'i gilydd, a'i galluogi i ddarparu gwasanaethau'n fwy effeithlon.

"...doedd neb yn gwybod at bwy i droi am gymorth, pan oedd hynny'n cyfri. Neu, i siarad â rhywun mewn sefyllfaoedd tebyg, oherwydd doedd neb yn eu cysylltu â'i gilydd" (Cyfwelai 1 yr astudiaeth achos cymunedol)

Er budd economaidd-gymdeithasol lleol

Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd a chyfranogwyd cyfnewid gwybodaeth yn cydnabod pa mor bwysig oedd hi bod cymunedau gwledig yn caffael asedau ar gyfer datblygiad economaidd-gymdeithasol lleol; fel y disgrifiwyd gan un cyfwelai o sefydliad cymorth cenedlaethol: *"Bywiogrwydd gwledig. Y manteision cymdeithasol ac economaidd. Dyna'r ddau beth. Dyna sy'n eu cymell"*. Bu cyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth hefyd yn trafod y manteision economaidd y gellid eu cyflawni ar

gyfer y gymuned ehangach drwy ailfuddsoddi arian a gynhyrchir gan brosiectau o fewn yr asedau sy'n cael eu caffael, fel mentrau cymdeithasol neu dyrbinau gwynt, i ddatblygu ac adfywio'r ardal.

I gymunedau gymryd perchnogaeth ar eu datblygiad eu hunain

Roedd yr unigolion a gyfwelwyd o fudiadau cefnogi cenedlaethol i gyd yn cytuno bod perchnogaeth ar asedau'n helpu pobl leol i deimlo bod ganddynt reolaeth dros ddatblygiad eu cymunedau.

"...mae angen i [gymunedau] gael perchnogaeth neu os nad ydynt yn gallu cael y berchnogaeth, mae angen iddynt gael o leiaf brydles hir iawn ar adeilad neu ased i'w galluogi i deimlo bod ganddynt gyfran yn y gymuned honno, i fod yn rhan ohoni, i wneud yr hyn maen nhw eisiau ei wneud"
(Cyfwelai o sefydliad cymorth cenedlaethol 2)

Cydnabuwyd bod ymdeimlad mewn cymunedau gwledig yn benodol yn aml eu bod ymhell oddi wrth y pwerau canolog (neu drefol) i wneud penderfyniadau, sydd wedi arwain at ddiwylliant o deimlo'n "ddiymadferth".

"...yng nghyd-destun Cymru, mae gennych chi gymunedau ôl-ddiwydianol... mae yna ryw fath o deimlad diymadferth sydd wedi cael ei ddysgu a dim ots beth maen nhw'n ei wneud, mae'r penderfyniadau'n cael eu gwneud yn rhywle arall...Does ganddyn nhw ddim rheolaeth o gwbl ac felly mae cael rhyw fath o ddylanwad, a llais yn yr ased yn dod yn bwysig iawn" (Cyfwelai o sefydliad cymorth cenedlaethol 1)

Mynegwyd barn debyg gan y cyfwelai o awdurdod lleol, a ddywedodd:

"...mae trosglwyddo asedau cymunedol yn caniatáu i asedau gael eu rheoli'n fwy lleol yn hytrach nag ar lefel ganolog. Felly, mae'n golygu sicrhau bod y bobl sy'n defnyddio ac yn rheoli'r asedau hynny'n gwybod beth maen nhw ei eisiau ac yn gwybod sut mae cyrraedd yno"

Er bod rhai a gyfwelwyd a chyfranogwyr Cyfnewid Gwybodaeth wedi rhoi pwyslais ar fod yn berchen ar dir ac adeiladau'n llawn, roedd eraill yn poeni llai am berchnogaeth lawn na chael rhywfaint o reolaeth dros ddatblygu lleol.

"Rydw i wedi bod yn gofyn i grwpiau nad oes ganddyn nhw berchnogaeth, a fyddech chi'n hoffi cael perchnogaeth? A'r ateb ydy, na mae'n iawn. Dydyn ni ddim eisiau'r drafferth o fod yn berchnogion cyn belled â bod gennym ni'r hawl i bennu strategaeth reoli a rhai hawliau economaidd, yna mae'n iawn. Byddwn ni'n gweithio mewn partneriaeth â'r corff [cyhoeddus]" (Cyfwelai o sefydliad cymorth cenedlaethol 1)

Dywedodd rhai cyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth fod cael perchnogaeth ar asedau nid yn unig yn bwysig er mwyn cael rheolaeth dros yr hyn sy'n digwydd gyda nhw, ond hefyd ar fod yn "landlord teg" sy'n gallu cynnig lle i grwpiau cymunedol eraill i sicrhau eu bod yn goroesi, yn debyg iawn i'r mudiad cymunedol yn yr astudiaeth achos.

Diogelu cymunedau Cymraeg eu hiaith

Mynegodd cyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth y farn bod cymunedau gwledig yn rai o “*geidwaid allweddol y Gymraeg*”, a theimlwyd bod hyn yn arbennig o wir yn y Gogledd a hefyd mewn rhai ardaloedd gwledig yn y Canolbarth a’r De. Felly, roedd llawer yn rhoi gwerth ar gymunedau yn caffael asedau i weithredu fel llwyfan ar gyfer “*cadw’r Gymraeg yn fyw*” drwy ddarparu manau cymunedol a rennir i bobl leol allu ymgysylltu â chelf, diwylliant a threftadaeth. Roedd rhai cyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth yn credu bod hon yn rôl arbennig o bwysig oherwydd mewnffudo, er enghraifft, pobl wedi ymddeol o Loegr, ac effaith cartrefi gwyliau yr ystyriwyd eu bod yn gwanhau’r defnydd o’r Gymraeg.

Cymhellion i awdurdodau cyhoeddus drosglwyddo asedau i gymunedau

Am resymau ariannol / arbed costau

Dyweddodd ein cyfwelai o’r awdurdod lleol mai un o’r prif ffactorau sy’n sbarduno cynghorau i waredu asedau i gymunedau oedd arbed costau yn y tymor byr a’r tymor hir.

“Un o’r ffactorau sy’n sbarduno’r rhaglen trosglwyddo asedau cymunedol yw gwneud arbedion ariannol i’r awdurdod, felly am bob ased rydyn ni’n ei drosglwyddo i grŵp cymunedol, fel cae pêl-droed, rydyn ni’n gwneud arbedion ariannol o dair mil a hanner o bunnoedd y flwyddyn, dim ond ar y gwaith cynnal a chadw o ddydd i ddydd. Ar gyfer cae rygbi, rydw i’n meddwl ei fod yn tua phedair mil a hanner o bunnoedd, ar gyfer lawntydd bowls, mae’n tua deuddeg mil o bunnoedd. Felly, rydyn ni’n gwneud arbedion ariannol sylweddol ar hynny” (Cyfwelai o awdurdod lleol)

Ategwyd hyn gan y rhai a gyfwelwyd o sefydliadau cymorth cenedlaethol:

“...y prif reswm pam eu bod yn cael gwared ar yr asedau hynny yw am nad ydynt yn gynaliadwy yn ariannol i’r awdurdodau lleol. Felly dyna’r prif reswm pam eu bod yn awyddus i drosglwyddo asedau ac, mewn rhai achosion, rhwymedigaethau i grwpiau cymunedol” (Cyfwelai o fudiad cymorth cenedlaethol 3)

Dyma hefyd oedd profiad cymuned yr astudiaeth achos, lle’r oedd Cyngor Sir Powys wedi trosglwyddo’r ganolfan ddydd i Gyngor Tref y Trallwng, yn ogystal â’r costau cynnal cysylltiedig, oherwydd toriadau yn y gyllideb. Roedd llawer o’r arbedion cost a ddisgrifiwyd gan y rhai a gyfwelwyd a’r cyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth yn ymwneud â chostau chynnal a chadw adeiladau neu adnewyddu adeiladau a oedd wedi mynd i gyflwr gwael. Fodd bynnag, fel y nododd y cyfranogwyr Cyfnewid Gwybodaeth, roedd rhai’n gweld hyn fel “*agwedd hunanol tuag at asedau*” ar ran cynghorau, gydag un yn dweud bod “*cynghorau eisiau trosglwyddo rhwymedigaethau posibl i gael gwared arnynt*”.

Roedd y rhai a gyfwelwyd o sefydliadau cymorth cenedlaethol yn pwysleisio nad oes gan gynghorau, yng nghyd-destun cyni ariannol a thoriadau yn y sector cyhoeddus, ddigon o gyllid nac adnoddau dynol i gadw asedau’n weithredol. Felly, roedd cymunedau’n cael eu cymell yn aml i gymryd rheolaeth dros asedau gan y bygythiad o golli gwasanaeth.

“...gyda chyni ariannol, mae mwy o awdurdodau lleol yn gorfod trosglwyddo asedau oherwydd nad ydyn nhw’n gallu fforddio cadw’r asedau hynny...mae hynny’n fan cychwyn eithaf negyddol i’r holl daith o drosglwyddo asedau. Dydw i ddim yn meddwl y dylai hyn ddigwydd oherwydd bod hynny’n angenrheidiol, dim ond oherwydd nad yw’r awdurdod lleol yn gallu fforddio dal gafael arno...mewn byd delfrydol, bydden nhw’n cydnabod cryfderau grwpiau cymunedol ac yn defnyddio hynny fel man cychwyn y broses. Gwnewch y broses yn fwy cyfartal yn hytrach na’r profiad ‘o, damia, sut ydan ni’n cael gwared ar y rhain mor fuan â phosibl...’, dyna’n rydyn ni’n ei weld ac yn clywed amdano yn y rhan fwyaf o achosion” (Cyfwelai o sefydliad cymorth cenedlaethol 2)

Gwelwyd bod hyn yn arbennig o wir am wasanaethau cymunedol ‘meddalach’ fel llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol.

“...dydi caffis, canolfannau plant a gwasanaethau llyfrgell ddim yn ennill digon o arian i gadw’r lleoedd hyn i fynd...dydi fy nghanfyyddiad i o hanes trosglwyddo asedau cymunedol yng Nghymru ddim yn wych ac mae awdurdodau lleol wedi’i ddefnyddio fel cyfle i waredu...Mae ganddyn nhw ased sy’n faich arnyn nhw a does ganddyn nhw ddim model incwm hyfyw. Yna mae cael y gymuned i gymryd cyfrifoldeb amdano’n ganlyniad gwych iddyn nhw” (Cyfwelai o sefydliad cymorth cenedlaethol 1)

Fodd bynnag, yn ogystal ag arbedion ariannol, dywedodd ein cyfwelai o’r awdurdod lleol fod eu cyngor hefyd yn cael ei gymell i drosglwyddo asedau drwy’r syniad y gallai cymunedau wneud pethau’n well a darparu gwasanaethau mwy effeithlon wedi’u teilwra i anghenion lleol.

“Felly, er ein bod yn edrych ar y gyllideb a lleihau cyllidebau, rwy’n credu bod y cyngor wedi cael gwybod am drosglwyddo asedau cymunedol er mwyn iddynt gael eu rheoli’n fwy effeithiol a chael ychydig o gariad nad ydym ni wedi gallu ei roi yn ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd y toriadau yn ein cyllideb a’r pwysau ar y gyllideb mewn gwirionedd” (Cyfwelai o awdurdod lleol)

Ar ben hynny, fel y nododd cyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth, gall cymunedau “gynnal asedau’n rhatach na’r cyngor yn aml” oherwydd cyfraddau gostyngol, yn enwedig ar gyfer grwpiau cymunedol sy’n aml yn elusennau cofrestredig.

Y prif rwystrau sy’n atal ymgysylltu â'r gymuned yn ystod prosesau caffael asedau Llai o gapasiti cymunedol mewn ardaloedd gwledig

Soniodd yr holl rai a gyfwelwyd a’r cyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth am gapasiti cyfyngedig cymunedau gwledig i gymryd rhan mewn prosesau caffael asedau, yn fwyaf arbennig oherwydd diffyg sgiliau a gwybodaeth a diffyg gwirfoddolwyr. Tynnodd cyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth sylw at yr heriau allweddol a ddaeth yn sgil diboblogi gwledig, a oedd yn lleihau capasiti’r gymuned ymhellach, a theimlwyd bod y cynnydd mewn prisiau tai a chau ysgolion yn “*gwthio pobl iau a theuluoedd allan*” o ardaloedd gwledig. Roedd diffyg gwasanaethau a chyfleusterau mewn ardaloedd gwledig hefyd yn cael ei weld fel rhwystr mawr a oedd yn atal pobl newydd rhag symud i mewn. Rhai o sgil effeithiau hyn oedd colli sgiliau a gwybodaeth broffesiynol allweddol, syniadau newydd a ffres, ac egni ac ymdrech, yn ogystal ag effeithiau ar gynllunio olyniaeth ar gyfer y dyfodol.

“...yr hyn rydych chi’n ei weld gyda chanolfannau cymunedol...efallai fod gennych chi grŵp gweithgar, cymdeithas gymunedol sy’n gallu rheoli ased. Ond wrth i’r aelodau hynny heneiddio, mae’n llawer anoddach recriwtio’r genhedlaeth nesaf i gymryd yr awenau a rheoli ased...rydyn ni wedi cael un neu ddau o achosion lle mae canolfannau cymunedol, yn benodol, wedi cael eu dychwelyd i’r awdurdod” (Cyfwelai o awdurdod lleol)

Fel y nodwyd gan gyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth- *“gall datblygu’r sgiliau a’r wybodaeth (sydd eu hangen ar gyfer proses caffael asedau) fod yn dipyn o her i wirfoddolwyr”*. Felly, ystyriwyd yn aml fod perygl i aelodau’r gymuned *“orflino”* heb gnewyllyn digonol o bobl. Yn aml, gallai mynd drwy broses caffael asedau fod yn *“heriol iawn i’w drefnu dros eich hunain”*.

Tynnodd y rhai a gyfwelwyd o fudiadau cymorth cenedlaethol sylw hefyd at ddibyniaeth mewn ardaloedd gwledig ar gnewyllyn bach o wirfoddolwyr, yn enwedig yng nghyd-destun pobl leol yn gwirfoddoli’n aml ar draws nifer o grwpiau a phrosiectau, a gorfod gwisgo *“sawl het”*.

“...yn aml iawn, y Bwrdd yw’r bobl sy’n gwneud y gwaith caib a rhaw hefyd...yn 99% o’r sefydliadau rydyn ni’n gweithio gyda nhw, byddwn i’n dweud bod y Bwrdd hefyd yn gweithio fel gofalwyr, glanhawyr, clerod archebu, popeth, y cyfryngau cymdeithasol, nhw sy’n gwneud popeth” (Cyfwelai o sefydliad cymorth cenedlaethol 3)

Tynnodd y rhai a gyfwelwyd a’r cyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth sylw hefyd at y ffaith bod grwpiau cymunedol gwledig yn aml yn ei chael yn anodd sicrhau bod ganddynt unigolion ar eu byrddau sydd â’r sgiliau a’r wybodaeth i ymdopi â’r gofynion deddfwriaethol a chyllido sylweddol yn ogystal â’u hymrwymyiadau eraill. Fel y nododd un o’r cyfwelai yn yr astudiaeth achos cymunedol, wrth geisio mynd i’r afael â’r broses gyfreithiol o gaffael asedau – *“Bydd bob amser angen rhyw fath o arbenigedd arnoch chi, a gwybodaeth am yr ochr gyfreithiol. Fe wna i roi fy amser, ond dydw i ddim yn gyfreithiwr nac yn feddyg nac yn Brif Weithredwr”* (Cyfwelai 1 o’r astudiaeth achos cymunedol).

Sicrhau cynrychiolaeth a chyfranogiad

Gyda llai o boblogaeth mewn ardaloedd gwledig, dywedodd cyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth mai un o’r prif heriau yw sicrhau bod prosiectau asedau cymunedol yn cynrychioli barn a safbwyntiau’r gymuned gyfan, ac nid dim ond y rhai sy’n rhedeg cynghorau cymuned neu sy’n fwyaf gweithgar wrth ddatblygu’n lleol. Nododd y cyfranogwyr fod prosiectau datblygu cymunedol mewn ardaloedd gwledig weithiau wedi cael eu gwahanu’n llwyr ar sail yr iaith a siaredir.

“Gellir tueddu i fod yn brosiectau sy’n cael eu harwain gan y “Saeson” (y rhai sy’n uniaith Saesneg) a’r rhai sy’n cael eu harwain gan y Cymry Cymraeg lleol. Ar ei waethaf maen nhw’n wrthwynebus, ond yn amlach na pheidio’r gwir yw bod gan y Saeson eu prosiectau a’u manau a’u gofodau cymunedol, ac mae gan y Cymry Cymraeg eu rhai nhw. Efallai y bydd pobl yn mynegi cefnogaeth yn agored i bob un os gofynnir iddynt, ond fyddan nhw ddim yn ymgysylltu. Mae teyrngarwch llwythol yn dal i fodoli” (nodiadau cyfnewid gwybodaeth)

Dywedodd rhai hefyd y gall fod yn her i ymgynghori â’r gymuned a meithrin cefnogaeth gymunedol eang, o ystyried y tensiynau hyn ac diffyg dealltwriaeth o ardaloedd gwledig ymysg mewnfudwyr ar

adega, fel perchnogion cartrefi gwyliau a phobl o Loegr sy'n ymddeol i'r ardal, o ran y "cysylltiadau emosiynol rhwng hanes y tir a'r iaith" (un o'r cyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth).

Proses awdurdod lleol

Roedd y mwyafrif helaeth o'r rhwystrau a ddisgrifiwyd gan y rhai a gyfwelwyd a'r cyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth yn ymwneud â phrosesau awdurdodau lleol. Yn gyntaf, dywedodd y rhai a gyfwelwyd nad yw awdurdodau lleol yn tueddu i fod â phroses glir na safonol i gymunedau ei dilyn wrth wneud cais i drosglwyddo asedau: "*does gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ddim polisi tryloyw, sydd ar gael i'r cyhoedd, ar drosglwyddo asedau, ac nid oes polisi o gwbl gan rai ohonynt*" (Cyfwelai o sefydliad cymorth cenedlaethol 2). Ar ben hynny, roeddent yn adrodd bod prosesau'n amrywio gormod o un awdurdodau lleol i'r llall. Roedd hyn yn cynnwys gwahanol lefelau o gefnogaeth gan awdurdodau lleol ar gyfer trosglwyddo asedau, gwahanol ddehongliadau o ganllawiau cenedlaethol, ac roedd lefelau gwahanol o adnoddau ar gael gan awdurdodau.

"...mae'n amrywio'n eithaf dramatig yn ôl yr ardal ddaearyddol, oherwydd mae pob ardal awdurdod lleol yn wahanol, er bod gennym ganllawiau Llywodraeth Cymru ar drosglwyddo asedau, o ran y ffordd mae'r canllawiau hynny'n cael eu dehongli weithiau, p'un a ydynt yn cael eu harwain gan Adran Ystadau neu a ydynt yn cael eu harwain gan adfywio neu gymuned. Os oes gan yr awdurdod lleol Swyddog Cymunedol yn benodol i helpu i gefnogi'r broses, yna mae profiadau grwpiau yn gwbha wahanol mewn rhai ardaloedd" (Cyfwelai o fudiad cymorth cenedlaethol 3)

Tynnwyd sylw at hyn hefyd gan y rhai a gyfwelwyd yn yr astudiaeth achos cymunedol, a oedd wedi dod ar draws gwahaniaethau o ran y broses gyfreithiol rhwng llywodraeth leol ar lefel prif sir ac ar lefel tref.

"...rwy'n meddwl mai'r sefyllfa gyda Chynghorau Tref lleol yw nad yw rhai ohonynt nhw'n gwybod am y materion cyfreithiol a'r drefn ffurfiol...Ond, yn amlwg, ar lefel uwch, fel cyngor sir, gallwch chi droi i fwy nac un cyfeiriad i gael cyfarwyddyd. Mae mwy nag un person yn gyfrifol am eglurder cyfreithiol...Mae' mwy o graffu ar hynny. Ar [lefel Cyngor Tref], doedd dim unrhyw graffu" (Cyfwelai astudiaeth achos cymunedol 1)

Felly, roedd y rhai a gyfwelwyd a'r cyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth yn teimlo bod gan grwpiau cymunedol brofiad gwahanol iawn yn aml yn dibynnu ar ble roeddent yn byw a phwy oedd yn berchen ar yr ased, nad oedd o reidrwydd yn deg nac yn ddefnyddiol. Teimlai llawer y dylid safoni prosesau ar draws pob awdurdod lleol fel bod pawb "*yn cael eu tein yn yr un modd*".

Er bod ein cyfwelai o awdurdod lleol wedi dweud bod eu cyngor yn fodlon hwyluso trosglwyddo asedau a bod ganddynt broses safonol, fe ddywedont fod y cynnydd yn aml yn araf iawn oherwydd prinder adnoddau staff, yn enwedig wrth ddelio â mwy nag un achos.

"...mae adnoddau staff cyfyngedig yn fewnol yn golygu na allwn drosglwyddo'r asedau cyn gynted ag y byddem yn dymuno oherwydd bod pethau'n codi fel materion tyn ymwneud â theitl y tir, y ffordd y mae asedau wedi cael eu cofrestru...nid yw mor hawdd ag y byddech chi'n ei feddwl i drosglwyddo asedau cymunedol oherwydd bod pob un yn unigryw ac mae gan bob un ei broblemau y

mae angen eu datrys...mae cyfyngiadau arnom o ran faint o adnoddau staff sydd gennym” (Cyfwelai o awdurdod lleol)

Ategwyd hyn gan gyfranogwyr Cyfnewid Gwybodaeth, a oedd yn teimlo bod prosesau awdurdodau cyhoeddus yn arbennig o araf oherwydd bod diffyg hyfforddiant ac adnoddau o fewn cyngorau, gyda rhai cyngorau mor brysur fel bod perygl i gymunedau “*gael eu hanwybyddu*”.

Dywedodd cyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth y gall prosesau awdurdodau cyhoeddus fod yn “*gymhleth*”, yn “*anodd eu rheoli*” ac yn “*rhy fiwrocraidd*” i gymunedau a staff y cyngor fel ei gilydd. Hefyd, dywedodd y rhai a gyfwelwyd o sefydliadau cymorth cenedlaethol, yn eu profiad hwy, fod y cymhlethdod biwrocraidd a’r gofyniad am ymgysylltu digonol â’r gymuned yn aml yn gallu gwneud y broses o gaffael asedau’n un hir sy’n defnyddio llawer o adnoddau. Ar ben hynny, efallai nad yw trosglwyddo asedau yn un o brif flaenoriaethau cyngor, felly mae rheoli disgwyliadau sefydliadau cymunedol yn rhan o’r broses o’u cefnogi.

“Mae angen i grwpiau cymunedol gydnabod bod awdurdodau lleol yn gorfod blaenoriaethu eu llwythi gwaith ac yn aml iawn nid yw asedau cymunedol yn gymaint o flaenoriaeth ag yr hoffai’r grwpiau cymunedol iddynt fod” (Cyfwelai o fudiad cymorth cenedlaethol 3)

Serch hynny, mynegwyd y farn hefyd bod “*gwneud eich diwydrwydd dyladwy a chymryd mwy o amser i ‘drosglwyddo asedau’ mewn gwirionedd yn fwy buddiol yn y tymor hirach*” i lawer o grwpiau cymunedol gan ei fod yn rhoi amser iddynt werthuso eu gallu a’u hanghenion (Cyfwelai o sefydliad cymorth cenedlaethol 3).

Oherwydd y diffyg gwybodaeth sydd ar gael i’r cyhoedd, dywedodd y rhai a gyfwelwyd o sefydliadau cefnogi nad yw cymunedau’n aml yn gwybod pa asedau sy’n eiddo i awdurdodau cyhoeddus heb sôn a ydynt ar werth.

“...y rhwystr cyntaf un yw gwybod pwy sy’n berchen ar beth ac a oes caniatâd ganddynt i wneud rhai o’r pethau. Felly, yn eithaf aml, byddan nhw’n ffonio’r awdurdod lleol, ac ni fydd syniad gan yr awdurdod lleol (os mai nhw sy’n berchen ar yr ased ai peidio)” (Cyfwelai o fudiad cymorth cenedlaethol 3)

Roedd cynnydd o ran caffael asedau yn aml yn cael ei gyfyngu yn y lle cyntaf gan nad oedd cofrestr agored a chynhwysfawr yn bodoli o’r asedau sydd ar gael. Er bod y Gofrestrfa Tir yn cynnwys gwybodaeth am yr holl asedau sy’n eiddo i’r sector cyhoeddus a bod y wybodaeth ar gael i’r cyhoedd, teimlwyd y gellid symleiddio mynediad at wybodaeth am asedau sydd ‘ar gael’.

“...mae’n anodd iawn gwybod pwy sy’n berchen ar beth... gallwch chi wneud chwiliadau’r Gofrestrfa Dir ac ati ond os byddai map ar gael ar lefel cenedlaethol neu restr o bethau y byddai’n bosibl i awdurdodau lleol eu trosglwyddo, neu ar y llaw arall rhestr o asedau yr hoffai cymunedau allu gwneud cais amdanynt, byddai hynny’n ddefnyddiol iawn” (Cyfwelai o sefydliad cymorth cenedlaethol 2)

Diwylliant awdurdodau lleol

Un her allweddol a ddisgrifiwyd gan y rhai a gyfwelwyd yn y gymuned a chyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth oedd y canfyddiad nad oedd awdurdodau lleol eisiau trosglwyddo asedau i gymunedau. Teimlwyd mai'r rheswm am hyn oedd bod cynghorau'n amharod i gymryd risgiau a *"yn meddwl gormod fel busnes"*, yn dymuno cadw rheolaeth a pherchnogaeth dros ystadau, a'u bod yn gyndyn i ymddiried mewn grwpiau cymunedol neu ddim yn gwybod digon am eu capasiti. Tynnodd y cyfwelai o awdurdod lleol sylw at hyn hefyd, a dywedodd *"...dydi pob awdurdod lleol ddim wedi croesawu trosglwyddo asedau cymunedol. Does gan bob awdurdod lleol ddim yr adnoddau i drosglwyddo asedau cymunedol ac efallai na fydd angen i rai o'r rhai mwyaf cefnog ddilyn y llwybr hwnnw"*.

Roedd nifer o gyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth a'r rhai a gyfwelwyd yn teimlo bod gan gyrff cyhoeddus agwedd *"hen ffasiwn"* iawn o hyd o ran perchnogaeth asedau.

"Dydw i ddim yn meddwl bod angen unrhyw newidiadau polisi o gwbl arnom...y rhwystr mawr rydw i wedi'i wynebu drwy'r holl beth yw ofn y sector cyhoeddus o newid a'u gwrthwynebiad tuag at newid ac ofn a diffyg ymddiriedaeth mewn cymunedau...Ac rwy'n credu mai diwylliant yw'r prif reswm" (Cyfwelai o sefydliad cymorth cenedlaethol 1)

Roedd cyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth yn teimlo nad oedd pob cyngor *"wedi eu hargyhoeddi"* ynglŷn â chaffael asedau cymunedol, felly mewn rhai achosion roeddent yn gosod nifer o rwystrau biwrocraidd o flaen cymunedau, a'u bod yn eithaf *"difater"* o ran ymgysylltu. Roedd teimlad hefyd nad oedd cynghorau ond yn agored i gael sgwrs â chymunedau os oeddent am waredu ased a oedd yn faich arnynt.

Dywedodd y rhai a gyfwelwyd o sefydliadau cymorth cenedlaethol hefyd fod cynghorau weithiau'n ystyried bod risg i drosglwyddo asedau, o ran hyfywedd perchnogaeth gymunedol, a chanlyniadau gwleidyddol posibl penderfyniad i leihau maint yr ystâd gyhoeddus fel hyn. Mynegodd y rhai a gyfwelwyd y farn ei bod yn well gan awdurdodau cyhoeddus yn aml werthu asedau i brynwyr preifat neu sefydliadau eraill o'r sector cyhoeddus, oherwydd awydd i wneud cymaint o elw â phosibl. Er bod dyletswydd ar awdurdodau lleol fel arfer i wneud cymaint o elw â phosibl, roeddent yn teimlo eu bod yn aml yn dangos diffyg gweledigaeth o ran eu canfyddiad o ba fanteision allai ddeillio o berchnogaeth gymunedol.

Roedd cyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth hefyd yn priodoli llawer o'r gwrthwynebiad i drosglwyddo asedau i berchnogaeth gymunedol i ddiffyg ymddiriedaeth mewn cymunedau lleol neu ddiffyg gwybodaeth amdanynt, a diffyg dealltwriaeth o allu a sgiliau grwpiau lleol i gryfhau eu cymunedau.

Yn yr astudiaeth achos gymunedol, roedd yr ymatebwyr wedi canfod bod yr awdurdod lleol yn amharod i helpu, er gwaethaf pleon parhaus y gymuned. Yn wir, roedd yn anodd i sefydliad yr astudiaeth achos hyd yn oed gysylltu'n uniongyrchol â chynghorwyr, oherwydd diffyg manylion cyswllt a oedd ar gael i'r cyhoedd a rhwystrau gan un unigolyn mewn llywodraeth leol, a hyd yn oed ar ôl cael y manylion, roedd yn anodd cynnal llinellau cyfathrebu.

“Cymerodd chwe mis iddynt ddod i gysylltiad â’r cyngor. Ac roedd yn frwydr bob cam o’r ffordd. I gael siarad â nhw...Roedd un neu ddau o bobl yn gwthio hynny...ymladd pob cam o’r ffordd i’w gael...Roedd rhaid brwydro’n ddi-ben-draw i ddefnyddio rhywbeth sydd wedi bod yn wag ac sy’n gwbl hygyrch ac y mae galw amdano” (Cyfwelai 4 yr astudiaeth achos cymunedol)

“Oherwydd fy mod wedi gwneud cwynion ar y pryd, gyda’r [person perthnasol] i ddweud, mae hyn yn hurt, doedden nhw ddim hyd yn oed yn ateb ein galwadau, doedden nhw ddim yn ateb ein negeseuon e-bost. Mae yna ganllawiau ac amserlenni cyfreithiol a statudol. A dydyn nhw ddim yn cydymffurfio â nhw” (Cyfwelai 1 yr astudiaeth achos cymunedol)

Ar ôl profi’r math hwn o rwystr roedd y gymuned yn yr astudiaeth achos yn besimistaidd ynghylch eu siawns o fwrw ymlaen â’u ceisiadau ac roeddent yn teimlo’n ddiymadferth yn gyffredinol.

Diffyg deddfwriaeth a chanllawiau

Roedd llawer o’r rhai a gyfwelwyd a’r cyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth yn teimlo bod Cymru y tu ôl i wledydd eraill y DU o ran pwerau a chanllawiau deddfwriaethol.

“Fe fydden ni wir yn hoffi gweld deddfwriaeth a allai alluogi [trosglwyddo asedau] i ddigwydd yn haws o lawer... rydyn ni’n llawer pellach y tu ôl i Loegr a’r Alban. Does gennym ni ddim unrhyw fecanwaith cyfreithiol i gefnogi cymunedau i gymryd cyfrifoldeb dros asedau. Mater i’r awdurdodau cyhoeddus, yn sicr, yw cymryd y cam cyntaf hwnnw i drosglwyddo’r ased” (Cyfwelai o sefydliad cymorth cenedlaethol 2)

Ar ben hynny, fel y dywedodd yr un cyfwelai, nid oedd polisi’r llywodraeth wedi’i gydgyssylltu mewn ffordd effeithiol i alluogi hyn:

“Mae Llywodraeth Cymru i fod i lunio polisi a strategaeth ar gyfer cymunedau, ond dydw i ddim yn gwybod sut beth yw hynny mewn gwirionedd. Maen nhw’n dal i ddweud ei fod yn drawslywodraethol sydd, ar y naill law, yn gadarnhaol iawn, ond ar y llaw arall does neb i fod yn atebol amdano.”

Teimlai’r cyfwelai hwn bod angen canolbwyntio mwy ar safoni neu symleiddio prosesau llywodraeth leol, a bod fframwaith polisi mwy effeithiol yn ofyniad hanfodol ar gyfer gwneud hyn.

Er bod sefydliadau cymorth yn ystyried Deddf Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru yn ffordd ragweithiol o “wneud cynnydd” o ran caffael asedau cymunedol a “gorfodi cyrff cyhoeddus i gydweithio’n briodol â chymunedau” (Cyfwelai o sefydliad cymorth cenedlaethol 1), roedd rhai’n ystyried “nad oedd yn ddigon cryf” ac yn wynebu problemau gweithredu sylweddol.

“...mae gennym wahanol fecanweithiau cyfreithiol, mae gennym Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol lle mae cyrff cyhoeddus i fod i gydweithio a chynnwys cymunedau a lle gallai hynny fod yn gymunedau daearyddol, gallai fod yn gymunedau o ddiddordeb, gallai fod yn unigolion...Mae’n brin o ran gweithredu...rydym wedi cael llawer o ddarnau blaengar iawn o ddeddfwriaeth sydd wedi

digwydd yn yr wyth i ddeng mlynedd diwethaf...ond mae'r newid go iawn yn cymryd amser, nid yw'r diwylliant wedi'i ddal i fyny eto" (Cyfwelai o sefydliad cymorth cenedlaethol 1)

Hefyd, dywedodd y rhai a gyfwelwyd o sefydliadau cymorth fod canllawiau trosglwyddo asedau cymunedol Llywodraeth Cymru yn gofyn am ddiwygiadau i fod yn fwy "cymesur" a "chadarn".

"Mae canllawiau da iawn ar gael gan Lywodraeth Cymru ac mae meysydd y gellid eu cryfhau yn fy marn i, yn enwedig o ran y broses ei hun, yn eithaf aml yr hyn maen nhw'n ei wneud, yn eu canllawiau, mae'n mynd i'r adran Ystadau ar y diwedd i edrych ar y Gofrestrfa Dir a'r math hynny o beth [ond yn lle hynny] ... dylai'r adroddiad ar weithredoedd gael ei wneud ar y dechrau un...mae llawer o bethau y dylid eu gwneud ar y dechrau, felly rwy'n meddwl y dylid troi'r broses ar ei phen ychydig" (Cyfwelai o sefydliad cymorth cenedlaethol 3)

At hynny, teimlai un sefydliad cymorth a gyfwelwyd y gallai deddfwriaeth fod yn allweddol i egluro'r canllawiau a hyrwyddo gwell ymarfer gan awdurdodau cyhoeddus:

"...heb deddfwriaeth [canllawiau], does ganddo ddim y pŵer y dylai fod ganddo ac nid yw pob awdurdod lleol wedi'i fabwysiadu ac, i rai, maent wedi'i ddehongli, efallai, ychydig yn wahanol i'r ffordd y byddai rhywun arall yn ei ddehongli. Ac rwy'n credu y byddai deddfwriaeth yn helpu i egluro rhai o'r pwyntiau hynny" (Cyfwelai o sefydliad cymorth cenedlaethol 2)

Hefyd, dywedodd y rhai a gyfwelwyd fod angen i bolisi a chanllawiau Llywodraeth Cymru fod yn gliriach er mwyn i gymunedau ac awdurdodau lleol eu deall, er mwyn iddynt allu ymgysylltu'n effeithiol â phrosesau.

"Os nad wyf yn gallu deall eich terminoleg a'ch polisïau...does dim angen i mi deimlo cywilydd am hynny. Fy mod i'n llai o berson...yn sicr dylem fod yn llunio polisïau a gweithdrefnau y mae pawb yn eu deall...rwyf wir yn teimlo bod gwir angen, yn gyntaf oll, i'r bobl ar y lefel sy'n gwneud ein polisïau ddeall ar gyfer pwy maen nhw'n eu prosesu" (Cyfwelai 3 yr astudiaeth achos cymunedol)

"...dim ond gydag addysg hefyd y mae deddfwriaeth yn gweithio'n dda...oni bai eich bod yn addysgu'r cyrff sy'n trosglwyddo a hefyd cymunedau i wybod beth yw eu hawliau, yna mewn gwirionedd mae'r deddfwriaeth yn mynd i hel llwch ar y silff ac ni fydd yn cael ei defnyddio gymaint ag y dylai fod" (Cyfwelai o sefydliad cymorth cenedlaethol 2)

Er nad oedd pob un yn teimlo bod deddfwriaeth newydd yn angenrheidiol ar unwaith, roedd y sefydliadau cymorth a gyfwelwyd yn teimlo bod angen hanfodol am arweiniad, addysg a meithrin gallu i gael effaith sylweddol ar annog grwpiau cymunedol ac awdurdodau cyhoeddus i fynd ati i drosglwyddo asedau.

"...o ran y sector, mae angen meithrin y gallu hwnnw, yr adnoddau... byddai'n ddefnyddiol pe bai Cymru'n newid y deddfwriaeth, ond mae llawer ohono'n ymwneud ag addysg a chael arweiniad a chymorth cryfach hefyd... lle nad oes gennym y deddfwriaeth, mae angen i ni wneud yn siŵr bod y canllawiau mor gryf a chadarn â phosibl. A bod awdurdodau lleol a chyryff cyhoeddus eraill yn ei gydnabod ac yn deall y rhesymeg y tu ôl iddo hefyd" (Cyfwelai o sefydliad cymorth cenedlaethol 3)

Tynnodd cyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth sylw at feysydd penodol lle'r oeddent yn teimlo nad oedd mecanweithiau'r llywodraeth yn ddigonol, gan gynnwys *"fframwaith cenedlaethol i gofrestru asedau y mae gan gymunedau ddiddordeb yn eu rheoli"*, a *"hawl i gymunedau gael y cynnig cyntaf i gymryd rheolaeth dros asedau"*. Thema gyffredinol oedd bod angen canolbwyntio ar rymuso cymunedol gwirioneddol, gydag awdurdodau lleol yn gwreiddio trosglwyddo asedau'n llawn, yn hytrach na dim ond *"ei wneud oherwydd bod yn rhaid iddynt"*.

Gwnaeth y rhai a gyfwelwyd yn y gymuned ac o sefydliadau cymorth y pwynt pellach nad yw'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru ar y cyfan yn ddigonol ar ôl y trosglwyddiad.

"...Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn dod i ben ar ôl y trosglwyddo. Nid yw'r broses trosglwyddo asedau'n dod i ben pan fod y trosglwyddiad yn digwydd...mae'n cymryd blwyddyn neu ddwy arall yn braf i roi trefn ar bopeth...mae'r cymorth ar ôl trosglwyddo asedau'n sicr yn ddifffygol ac rydyn ni'n gweld llawer o sefydliadau'n mynd i drafferthion oherwydd hynny" (Cyfwelai o sefydliad cymorth cenedlaethol 3)

Diffyg opsiynau cyllido ar gyfer cymunedau gwledig

Roedd y rhai a gyfwelwyd a'r cyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth yn gweld fod yr opsiynau cyllido ar gyfer cymunedau gwledig yn rhwystr rhag ceisio caffael asedau. Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf yn teimlo, er bod ystod dda o botiau cyllido ar gael, nad yw wedi'i gydgyssylltu'n llwyr, ac mae diffyg cyllid cyfalaf wedi'i dargedu ar gyfer prynu asedau, i dalu ffioedd proffesiynol (e.e. ffioedd cyfreithiol a ffioedd syrfewyr), ac ar gyfer gwaith adnewyddu ar ôl caffael. Nododd cyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth fod *"mosaig o gyllidwyr"* a oedd yn aml yn anodd eu hadnabod, ac roedd angen gwneud llawer iawn o waith ar geisiadau a oedd yn heriol i gymunedau gwledig gyda llai o wirfoddolwyr ar gael. At hynny, roedd canfyddiad yn aml, oherwydd nad oedd cymaint o boblogaeth a diffyg cefnogaeth gymunedol, mai ychydig o opsiynau oedd ar gyfer codi arian drwy lwybrau eraill fel rhoddion cymunedol neu gynlluniau lle mae aelodau o'r gymuned yn prynu cyfranddaliadau mewn prosiect.¹⁰

Roedd cyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth hefyd yn teimlo nad oedd cymunedau'n aml yn gallu codi digon i o arian i dalu pris y farchnad am asedau roeddent am eu prynu gan awdurdodau lleol ac nad oeddent yn gallu *"cystadlu â phrynwyr yn y sector preifat a rhai sy'n prynu gydag arian parod"*.

"Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau'r gwerth gorau posibl am yr asedau hynny, gan anghofio'n llwyr nad oes gan grwpiau cymunedol gronfeydd wrth gefn parod i'w defnyddio sydd, unwaith eto, yn broblem" (Cyfwelai o sefydliad cymorth cenedlaethol 2)

Dywedodd un o'r cyfwelai o sefydliad cymorth cenedlaethol fod cymunedau gwledig yn benodol yn aml ar eu colled o ran cyllid gan eu bod yn ei chael yn anodd dangos y gwaddol a'r cynaliadwyedd i gyllidwyr.

¹⁰ <https://cy.cwmpas.coop/yr-hyn-a-wnawn/gwasanaethau/cyfranddaliadau-cymunedol-cymru/>

“Rwy’n credu bod llawer o ardaloedd gwledig yn ei chael hi’n anodd cael gafael ar gyllid...nid yw hynny o reidrwydd yn ymwneud â’r ystadegau amddifadedd, ond mae’n ymwneud â’u gallu i fod yn gynaliadwy. Rwy’n credu bod llawer o’r rhethreg ynghylch trosglwyddo asedau cymunedol yn ymwneud â chynaliadwyedd yr asedau hynny...ond efallai nad oes ganddynt achos busnes digon cryf oherwydd ei bod yn bosibl nad ydynt yn gallu denu’r un niferoedd mewn rhai o’n cymunedau mwy gwledig a mwy difreintiedig” (Cyfwelai o sefydliad cymorth cenedlaethol 3)

Tynnodd unigolion a gyfwelwyd o sefydliadau cymorth ac awdurdodau lleol sylw at y ffaith bod cymunedau gwledig wedi colli mynediad at gyllid Ewropeaidd o ganlyniad i Brexit: *“Mae gan [gymunedau gwledig] fwy o anghenion ac, yn hanesyddol, maen nhw wedi cael cyllid ychwanegol, yn enwedig gan Lywodraeth Cymru a chyryff Ewropeaidd fel yr ESF a’r ERDF” (Cyfwelai o awdurdod lleol).*

Roedd sefydliadau cymorth cenedlaethol yn dweud mai’r Gronfa Perchnogaeth Gymunedol yw un o’r unig ffynonellau cyllid sydd ar gael i grwpiau cymunedol bellach. Fodd bynnag, roedd rhai o’r rhai a gyfwelwyd o’r farn ei bod yn gronfa gymhleth ac yn anodd cael gafael arni, gan nodi bod angen cyllid cychwynnol sylweddol er mwyn cael 50% o arian cyfatebol, a oedd yn aml y tu hwnt i gyrraedd y rhan fwyaf o sefydliadau cymunedol, ac roedd disgwyl iddynt gael hynny o fewn amserlenni afrealistig. Yn benodol, roedd y rhai a gyfwelwyd o’r farn bod y rhagolygon i gymunedau gael arian cyfatebol yn gyfyngedig, gyda dim ond un gronfa gyhoeddus, y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol, ar gael yng Nghymru. Serch hynny, roedd mudiadau cymorth cenedlaethol yn sôn am brofiadau negyddol o geisio cael gafael ar yr arian cyfatebol hwn.

“Roedd y broses ei hun yn ofnadwy o’r dechrau i’r diwedd... roedd y cyllid a gawsom wedyn yn ôl-weithredol, felly roedd yn rhaid i ni ei ariannu ein hunain ac yna hawlio’r arian yn ôl, ac unwaith eto roeddem yn gallu gwneud hynny ond ni fyddai’r rhan fwyaf o grwpiau cymunedol yn gwneud...dim ond 50% o’r gost fydden nhw’n ei ariannu, felly roedd yn rhaid i ni sicrhau’r gweddill. Roedden nhw eisiau i’r arian gael ei wario o fewn tri mis, wel, erbyn i chi fynd allan i dendr a sicrhau gweddill y cyllid, roedd yn amlwg nad oedd hynny’n mynd i ddigwydd...Cawsom gymeradwyaeth ym mis Hydref ’21 a chawsom ein taliad terfynol ym mis Mawrth ’23. Felly mae hynny’n dweud wrthyfych chi pa mor hir y cymerodd hi i ni gael yr arian ganddyn nhw” (Cyfwelai o sefydliad cymorth cenedlaethol 3)

Yn ogystal â chyllid i brynu asedau, fe wnaeth y rhai a gyfwelwyd a chyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth hefyd dynnu sylw at fwllch yn y cyllid cyn ac ar ôl caffael. Dywedodd ymatebwyr fod angen cyllid ysgogi a chyllid hybu arnynt, ynghyd â chynghor ac arweiniad annibynnol ar sut i godi arian i’w brynu mewn cymunedau (e.e. codi arian, cyfranddaliadau cymunedol). Yn benodol, nododd cyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth fod angen i’r mecanweithiau cyllido presennol *“bara hirach”* yn unol â’r prosesau hirwyntog ar gyfer caffael asedau. Ar ôl caffael, ystyriwyd bod cyllid grant ar gyfer costau craidd yn bwysig er mwyn sicrhau hyfywedd asedau a drosglwyddwyd yn y dyfodol ac, yn ei dro, annog grwpiau cymunedol ac awdurdodau cyhoeddus i fynd ar drywydd mwy ohonynt.

Y prif ffactorau hwyluso ar gyfer ymgysylltu â’r gymuned yn ystod prosesau caffael asedau

Pan ofynnwyd am hwyluswyr allweddol ar gyfer caffael asedau cymunedol gwledig, fe soniodd y rhai a gyfwelwyd a chyfranogwyr Cyfnewid Gwybodaeth am yr hyn a oedd eisoes yn bodoli a hefyd am yr hyn yr oedden nhw’n teimlo oedd ei angen i hwyluso caffael asedau cymunedol yn well.

Cefnogaeth awdurdodau lleol

Roedd y rhai a gyfwelwyd a chyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth o'r farn ei bod yn hanfodol cael cefnogaeth yr awdurdod lleol er mwyn hwyluso'r broses o drosglwyddo asedau. Roedd rhai a gyfwelwyd o sefydliadau cymorth yn teimlo bod deddfwriaeth newydd yn llai pwysig na newid yn agwedd a diwylliant awdurdodau lleol.

“Yn sylfaenol, mae angen newid diwylliant sydd wir yn gwerthfawrogi ac yn cydnabod yr hyn y mae cymunedau'n ei wneud...Gall cymunedau wneud pethau cadarnhaol iawn. Gellir ymddiried ynddyn nhw, roedden nhw'n ddibynadwy yn ystod y pandemig...mae'n teimlo i raddau eich bod chi'n gallu trosglwyddo pethau i gymunedau pan fydd hynny'n addas i'r sector cyhoeddus ond pan fydd pethau'n iawn a phethau'n dychwelyd i normal, rydych chi'n eu tynnu oddi arnynt unwaith eto. Yn y bôn, nid yw hynny'n deg, felly byddai'n bwysig iawn i ailwerthuso'r berthynas honno...byddai hynny'n fwy buddiol na darn o ddeddfwriaeth. Dyna lle byddai newid yn digwydd” (Cyfwelai o sefydliad cymorth cenedlaethol 2)

Roedd hyn yn cael ei adlewyrchu ym mhrofiad grŵp cymunedol yr astudiaeth achos, a oedd, ar ôl iddynt gael cyfle i gyfathrebu'n effeithiol â'r cyngor ac egluro beth oedd eu cynlluniau a'r manteision posibl i'r cyngor, roedd y cyngor wedi gwneud mwy i gynorthwyo a hwyluso'r broses.

Roedd y rhai a gyfwelwyd o'r farn bod rhai awdurdodau cyhoeddus yn well nag eraill yn hyn o beth, gyda gwahaniaethau'n cael eu dangos yn arbennig o ran yr amrywiaeth o gymorth ariannol a sefydliadol sydd ar gael i gymunedau. Nodwyd bod rhai awdurdodau wedi bod yn rhagweithiol o ran annog trosglwyddo asedau oherwydd y manteision y gallent eu gweld i'r ardal leol ac i'r cyngor ei hun – yn wir, dyma'r darlun a ddisgrifiwyd gan y sawl un o'r swyddogion awdurdod lleol a gyfwelwyd:

“Rydyn ni wedi croesawu trosglwyddo asedau cymunedol, ac ar ben gwneud arbedion ariannol, gallwn weld ein bod ni hefyd yn sicrhau bod yr asedau hynny'n cael eu diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a dyna pam rydyn ni'n gwneud rhyw fath o fuddsoddiad yn yr asedau hynny” (Cyfwelai o awdurdod lleol)

Dywedodd y rhai a gyfwelwyd fod tueddiad i awdurdodau lleol cefnogol hefyd fod â phroses ffurfiol ar gyfer asesu ceisiadau i drosglwyddo asedau, a oedd yn cynnwys ystyried hyfywedd yr ased a'r sefydliad a oedd yn ceisio cymryd rheolaeth drosto. Adroddwyd hefyd y gellid darparu cyllid a chymorth ychwanegol i wella cyflwr yr ased a/neu sicrhau cynaliadwyedd y sefydliad, os oes angen hynny. Disgrifiodd ein cyfwelai o awdurdod lleol y camau a oedd yn cael eu cymryd:

“...rydyn ni'n gwneud rhywbeth o'r enw diagnosteg busnes ar y grŵp cymunedol hwnnw i sicrhau eu bod yn endid cyfreithiol sydd ag atebolrwydd cyfyngedig. Mae ganddyn nhw'r gallu i reoli ased...Diagnosteg busnes yw'r cam cyntaf, yna'r endid cyfreithiol, felly byddwn yn eu helpu i ddod yn gwmni cyfyngedig drwy warant neu'n sefydliad corfforedig elusennol neu'n Gwmni Budd Cymunedol neu'n endid cyfreithiol arall sy'n rhoi rhywfaint o atebolrwydd cyfyngedig [ac]... yn eu helpu i ddatblygu achos busnes.”

Dyweddod y swyddog awdurdod lleol a gyfwelwyd fod eu cyngor yn hyblyg ynghylch math o fudd cyfreithiol y gymuned a thelerau perchnogaeth neu brydles, gan brydlesu'n gyntaf yn aml i ganiatáu i grwpiau cymunedol *"gymryd cyfrifoldeb dros ased a gweld sut mae pethau'n mynd... rydyn ni'n edrych ar ased, rydyn ni'n edrych ar anghenion y grwpiau cymunedol dan sylw, ac rydyn ni'n ceisio dod o hyd i'r ateb gorau"*.

Dyweddod y swyddog awdurdod lleol a gyfwelwyd fod eu cyngor yn darparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer datblygu cymunedau gwledig, ac mae trosglwyddo asedau'n rhan o'r cylch gwaith ehangach hwn:

"...gan fod arian Ewropeaidd wedi mynd bellach, rwy'n credu ein bod yn canolbwyntio nawr ar gymunedau'r cymoedd, sef y rhan fwyaf o'r ardaloedd hynny a oedd yn arfer cael eu hystyried yr ardaloedd datblygu gwledig...rydym wedi diweddaru ein blaenoriaethau corfforaethol i adlewyrchu hynny...yn amlwg mae tueddiad i'r ardaloedd hynny fod y rhai mwyaf difreintiedig yn gymdeithasol. Felly, byddai eu cyfleusterau'n gyfyngedig, byddai eu cysylltiadau â'r rhwydwaith ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus hefyd yn gyfyngedig. Felly, fel awdurdod lleol, rwy'n meddwl ein bod ni'n gwbl ymwybodol bod ganddyn nhw anghenion gwahanol i'r hyn sydd yna mewn ardal drefol, dyweder" (Cyfwelai o awdurdod lleol)

Sefydliadau cymorth lleol a chenedlaethol

Roedd cyfran fawr o'r rhai a gyfwelwyd a'r cyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth o'r farn bod sefydliadau cymorth yn elfennau allweddol o'r broses o gaffael asedau, oherwydd yr amrywiaeth eang o gymorth y gallant ei gynnig i fudiadau cymunedol unigol: *"Gall mudiadau trydydd sector weithredu fel catalydd, dod â'r gymuned at ei gilydd, dod o hyd i asedau mewn cymunedau, cefnogi'r unigolion"* (Cyfranogwr cyfnewid gwybodaeth).

Dyweddod y rhai a gyfwelwyd a oedd yn gweithio i sefydliadau cymorth cenedlaethol eu bod yn darparu cymorth uniongyrchol ac wedi'i gyfeirio at sefydliadau eraill y maent yn cydweithio'n agos â nhw.

"...mae'n dibynnu ar y math o ased, os yw'n dafarn neu'n siop gymunedol, yna byddwn i'n troi at Plunkett UK am gymorth a gwybodaeth. Os yw'n lle tyfu cnydau cymunedol, byddwn i'n edrych ar Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol...o ran ein cyrhaeddiad daearyddol ein hunain, rydyn ni'n gwybod na allwn ni wneud popeth, ac mae llawer o'r trosglwyddiadau asedau hyn yn eithaf llafurddwys mewn gwirionedd. Felly, yr hyn rydyn ni'n ceisio ei wneud yw cyfeirio a gweithio gydag eraill hefyd" (Cyfwelai o sefydliad cymorth cenedlaethol 3)

Roedd un o'r sefydliadau cymorth cenedlaethol a gyfwelwyd hefyd yn caffael asedau ar ran cymunedau fel 'gwarcheidwad asedau' felly roedd gan y cyfwelai brofiad uniongyrchol o gymryd rheolaeth dros asedau gan awdurdodau cyhoeddus.

"...os ydynt yn cyd-fynd â'n hamcanion strategol, byddwn ni'n camu i mewn fel gwarcheidwad asedau...rydym wedi camu i mewn i geisio diogelu'r cyfleuster hwnnw a chadw hynny yn y gymuned wrth i ni feithrin gallu'r gymuned i'w ddatblygu dros eu hunain"

Roedd y rhai a gyfwelwyd o sefydliadau cymorth cenedlaethol hefyd yn tynnu sylw at eu rôl o ran helpu i hyrwyddo trosglwyddo asedau fel cysyniad yn fwy cyffredinol ac annog dysgu ar y cyd rhwng gwledydd, a oedd yn cael ei ystyried yn beth prin iawn.

“Ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael. Ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael ar lefel y llywodraeth hyd yn oed. O ran y llywodraeth, o’r prif sgysiau gyda llywodraeth Cymru, does ganddyn nhw ddim syniad beth sy’n digwydd yn yr Alban. Rwy’n gwybod mwy am Ddeddf Diwygio Tir yr Alban a’r Comisiwn Tir na gweision sifil uchel iawn. Does ganddyn nhw ddim syniad” (Cyfwelai o sefydliad cymorth cenedlaethol 1)

Er bod sefydliadau cymorth yn cael eu hystyried yn ddefnyddiol i hyrwyddo a hwyluso trosglwyddo asedau, tynnodd cyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth sylw at amrywiaeth o gefnogaeth a oedd ar goll, o leiaf cyn belled ag y gwyddent. Yn fwyaf cyffredin, dywedodd cyfranogwyr fod angen heb ei ddiwallu am ganllaw cam wrth gam neu becyn cymorth ar sut i lywio drwy’r broses o’r dechrau i’r diwedd. Roeddent hefyd yn awyddus i gael hyfforddiant i grwpiau cymunedol ar sut i reoli prosiectau a chynllunio busnes, ac am gael lle canolog lle gallai cymunedau gael gafael ar wybodaeth am sefydliadau cymorth a chyrrff proffesiynol perthnasol eraill.

Sgiliau a chymhelliant y gymuned

Teimlai llawer o’r rhai a gyfwelwyd y gallai meddu ar y sgiliau proffesiynol priodol mewn sefydliad cymunedol helpu i oresgyn rhai o anawsterau’r broses trosglwyddo asedau. Yn benodol, ystyriwyd bod sgiliau sy’n gysylltiedig â sicrhau cyllid, materion cyfreithiol a chynllunio/rheoli busnes yn bwysig.

“Pe bai gennych chi grŵp cymunedol cryf iawn gyda llawer o wahanol sgiliau, felly efallai fod yna gyfreithiwr yn aelod o’ch bwrdd, efallai fod cyfrifydd ar eich bwrdd, neu fod gennych chi rywun sydd â digon o amser i wneud yr holl waith ymchwil heb orfod gwneud pethau o ddydd i ddydd, beth bynnag mae eich grŵp yn ei wneud, byddai’ hynny’n gwneud pethau’n llawer haws” (Cyfwelai o sefydliad cymorth cenedlaethol 2)

Roedd llawer o’r rhai a gyfwelwyd o fudiadau cymunedol a chymorth hefyd yn teimlo ei bod yn bwysig cael ymrwymiad ac egni cryf i wella’r ardal leol, o fewn y mudiadau cymunedol ac ymysg pobl leol yn ehangach.

“Os oes gennych chi sefydliadau angori cymunedol cryf neu grwpiau cryf o bobl sy’n teimlo’n angerddol iawn am rywbeth sy’n bodoli yn eu cymuned, gall hynny fod yn ddigon i’w yrru ymlaen” (Cyfwelai 5 o’r astudiaeth achos gymunedol)

“Mae ymdeimlad cryf iawn o gymuned yn y Trallwng...os yw pobl yn fodlon gwneud y gwaith a dweud ‘dyma sydd angen i ni ei wneud’ a’u bod yn barod i wneud hynny. Ac yn barod i frwydro bob cam o’r ffordd. Gellir gwneud hyn. Mae’n rhaid i bobl fod yn barod i frwydro drosto” (Cyfwelai 4 o’r astudiaeth achos cymunedol)

Roedd llawer yn teimlo bod yr ymdeimlad hwnnw o gymhelliant a chymhelliant lleol yn deillio o ddiwylliant gwledig o “hunan-gymorth” a theimlad na fydd unrhyw un arall yn gwneud pethau dros gymunedau os nad ydynt yn barod i’w gwneud dros eu hunain. Roedd y rhai a gyfwelwyd hefyd yn teimlo, pan fydd cymuned yn llwyddiannus gydag un prosiect neu fenter, bod hyn yn tueddu i ddenu rhagor o gefnogaeth gan y gymuned ehangach a hefyd gan lywodraeth leol.

Pwysleisiodd cyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth mai cynllunio a pharatoi gofalus ar gyfer pob posibilrwydd yw’r allwedd arall i lwyddiant cymunedau wrth gaffael ased, ac agwedd dryloyw a realistig tuag at y daith o’n blaenau. Ar ben hynny, dylai cymunedau fod yn barod i fod yn “hyblyg” ac yn “barod i newid pethau” os na fydd rhywbeth yn gweithio fel y bwriadwyd.

Effeithiau prosesau caffael asedau ar rymuso, cydnerthedd a llesiant cymunedau gwledig

Grymuso

Cafwyd amrywiaeth o safbwyntiau ar y cysyniad o rymuso cymunedol drwy gydol y broses o gaffael asedau. Dywedodd un o’r sefydliadau cymorth cenedlaethol a gyfwelwyd, hyd yn oed yn ystod y cam cynllunio, fod sgysiau ynghylch pwysigrwydd ased yn gallu dylanwadu ar hunanganfyddiad cymuned o ran ei threftadaeth a’i hunaniaeth, a gall hyn eu grymuso ynddo’i hun:

“Un naratif rydw i wir yn ei hoffi, sydd wedi dod gan y gymuned, yw’r newid hwnnw o fod yn hen dref lofaol i fod yn dref goedwig y dyfodol. Roedden ni’n arfer bod yn dref lofaol a dyna sut roedden ni’n cael ein diffinio a nawr ein perthynas â’r goedwig sy’n ein diffinio ni. Nawr, mae hynny’n ein grymuso’n fawr, mae’n taro tant, yn yr ystyr mai dim ond megis dechrau mae hynny”

Roedd y wybodaeth bod gan gymunedau’r hawl a’r gallu i gael mynediad at eu hasedau eu hunain hefyd yn cael ei hystyried yn rymusol ac o bosibl yn weithred sy’n ysgogi.

“Os yw pobl yn gwybod am eu hawliau a’u bod yn gwybod am y broses, gall hynny eu grymuso i weithredu” (Cyfwelai o Sefydliad Cymorth Cenedlaethol 2)

Ystyriwyd bod profiadau cadarnhaol o drosglwyddo asedau yn grymuso i’r graddau y gallent ysgogi cydgyhyrchu ac ymgysylltu rhwng aelodau’r gymuned, er y teimlwyd bod hyn i ryw raddau’n dibynnu ar y graddau yr oedd awdurdodau cyhoeddus yn cymryd rhan yn y bartneriaeth hon.

“Fy mhrofiad i yw y gall eich grymuso’n fawr iawn...hyd yn oed y broses gyd-gynhyrchu hon lle mae pobl yn gwranddo ar eich gwerthoedd, mae’r broses hon wedi ein grymuso’n fawr ac mae pobl yn gadarnhaol iawn am y peth...mae’n eich gwneud yn optimistaidd ac yn rhoi mwy o gred i chi ynghylch yr effaith y gallwch ei chael pan mae rhywun yn gwranddo arnoch chi, pan nad oes neb wedi gwneud hynny ers degawdau” (Cyfwelai o Sefydliad Cymorth Cenedlaethol 1)

“O ran y broses trosglwyddo asedau, mae’n sôn am bartneriaeth, mae’n sôn am gydweithio. Dylid cael dull cydgyhyrchiol o drosglwyddo asedau a dysgu o’r broses ac addasu...rydym hefyd yn crybwyll bod gwahaniaethau o ran pa ardal awdurdod lleol rydych chi ynddi a bod rhai yn fwy rhagweithiol nag eraill, felly rwy’n credu bod rhai’n grymuso cymunedau ychydig yn well nag eraill” (Cyfwelai o Sefydliad Cymorth Cenedlaethol 3)

Nododd cyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth y gall gwaith mudiadau cymunedol rymuso ei grwpiau targed drwy roi llais a llwyfan iddynt i'w defnyddio i ymgysylltu. Fel y nodwyd gan y rhai a gyfwelwyd fel rhan o'r astudiaeth achos gymunedol, gall y ffaith bod camau'n cael eu cymryd ar lefel gymunedol arwain at ymdeimlad o undod a *"chryfder mewn niferoedd"*, gan gryfhau ymhellach deimladau o rymuso unigolion a chymunedau.

Fodd bynnag, tynnodd un o'r rhanddeiliad cenedlaethol sylw at y ffaith, er y gallai caffael ased eich grymuso, y gallai heriau amrywiol ar ôl caffael ddad-rymuso'r rheini sy'n ymwneud â'i redeg a'i gynnal:

"Rwy'n credu y gallai'r broses ei hun eich dadrymuso'n fawr...mae'r holl gostau cynnal a chadw, y costau parhaus...mae adeiladau'n aml mewn cyflwr ofnadwy ac nid oes gan grwpiau cymunedol y cyllid wrth gefn...ond doedden nhw ddim yn gwybod hynny cyn i'r trosglwyddiad ddigwydd...rwy'n meddwl y gall y broses go iawn o fynd drwy'r mecanwaith neu'r broses trosglwyddo asedau ei hun eich dadrymuso'n gyffredinol" (Cyfwelai o Sefydliad Cymorth Cenedlaethol)

Cydnherthedd

Roedd cyfranogwyr yr ymchwil yn deall bod cydnherthedd yn golygu'r gallu i oroesi a bod yn gynaliadwy yn wyneb newid. Dangosodd yr ymchwil fod gwydnwch cymunedol yn hanfodol ar gyfer trosglwyddo asedau ac yn un o'r effeithiau sy'n codi yn sgil hynny.

Roedd y rhai a gyfwelwyd a'r cyfranogwyr Cyfnewid Gwybodaeth o'r farn bod cyfleusterau a chysylltiadau trafniadaeth cyfyngedig yn bygwth ac yn cyfyngu ar gydnherthedd ardaloedd gwledig yng Nghymru, ac roedd caffael asedau yn un ffordd o wrthsefyll hyn. Serch hynny, roedd llawer hefyd o'r farn bod dibyniaeth ar grwpiau bach o wirfoddolwyr yn bygwth cydnherthedd mudiadau cymunedol gwledig i gaffael asedau.

Roedd rhanddeiliaid proffesiynol o'r farn bod perchnogaeth asedau yn eithaf hanfodol ar gyfer cydnherthedd cymunedol, gan ei fod yn cadw gwasanaethau ar agor ac yn weithredol, a hefyd yn annog pobl leol i gael 'cyfran' yn eu cymuned a chyflawni canlyniadau nad oes modd i'r sector cyhoeddus eu cyflawni.

Roedd ymatebwyr yr astudiaeth achos yn credu bod yn rhaid i sefydliad cymunedol fod yn gydnherth er mwyn ymgymryd â heriau proses trosglwyddo asedau a'i gweld yn dwyn ffrwyth.

"Rydyn ni'n aml yn son yma ei bod yn cymryd dwy flynedd os nad mwy i drosglwyddo asedau, mae hynny'n amser hir i fod yn mynd drwy broses eithaf beichus gyda rhwystrau'n pentyrru yn eich erbyn. Mae angen i chi fod yn gydnherth iawn i hyd yn oed ystyried wynebu hyn" (Cyfwelai o sefydliad cymorth cenedlaethol)

Ar ôl caffael, nodwyd bod gwytnwch yn dibynnu ar hyblygrwydd sefydliadau cymunedol i ystyried beth yw'r ffordd orau y gall yr ased wasanaethu anghenion parhaus a newidiol y gymuned. Mewn achosion lle'r oedd asedau'n datblygu i fod yn faich, ystyriwyd y gallai'r broses erydu cydnherthedd cymunedol.

Llesiant

Adroddwyd am yr effeithiau ar lesiant ar wahanol gamau yn y broses o gaffael asedau, ac ar gyfer gwahanol unigolion cysylltiedig. Soniodd cyfranogwyr Cyfnewid Gwybodaeth am werth symbolaidd yr ased fel rhywbeth a oedd yn dod â'r gymuned at ei gilydd at ddiben cyffredin, ac effaith cymryd perchnogaeth dros lesiant "cyffredinol" y gymuned. Dywedodd y cyfranogwyr hefyd, drwy gymryd

cyfrifoldeb dros asedau lleol y gellir “ail-fywiogi” cymunedau, y gall gynyddu “ysbryd y gymuned” a bod yn ymdrech “werth chweil”. Fel y nododd un cyfranogwr Cyfnewid Gwybodaeth: “mae’n fwy nag adeilad (neu ddarn o dir), yr hyn sy’n digwydd ynddo yw’r gwir fudd lleol”.

Mynegodd y rheini a gyfwelwyd yn yr astudiaethau achos y farn, er bod y broses hyd yma wedi arwain at effeithiau negyddol ar lesiant y rheini sy’n ymwneud â llywodraethu’r sefydliad cymunedol, gan gynnwys blinder a gorflinder, ei bod yn bosibl y bydd trosglwyddiad llwyddiannus yn gwella llesiant. Felly, roedd llesiant yn cael ei ystyried fel rhywbeth sy’n newid ac yn esblygu yn dibynnu ar y cam o’r broses rydych chi arni.

“Os ydych chi’n cael eich ased a bod pethau’n mynd yn eithaf da, gallai hynny gael effaith enfawr ar eich llesiant. Ond mae mynd drwy broses gyfreithiol hirfaith a chostus yn mynd i gael effaith eithaf negyddol ar eich llesiant. Os byddwch chi’n llwyddo i ymdopi â hynny ac yn cael eich allwedd i ac yn cymryd perchnogaeth, mae’n amlwg y bydd hynny’n uchafbwynt mawr o ran eich llesiant cadarnhaol” (Cyfwelai 2 yr astudiaeth achos)

Cofnodwyd cyfaddawdau tebyg gan y rhai a gyfwelwyd a chyfranogwyr cyfnewid gwybodaeth, lle’r oedd y “positifrwydd” a’r “hunan-fodddhad” o fod yn rhan o fudiad cymunedol yn cael ei wrthbwysu gan y “pryder” o ymdopi â’r anawsterau ariannol parhaus a wynebwr gan lawer o fudiadau cymunedol wrth ymgymryd ag asedau.

Un agwedd bwysig ar y broses sy’n gysylltiedig â gwell llesiant gan amrywiaeth o randdeiliaid oedd rhyngweithio cymdeithasol a chryfhau cysylltiadau cymdeithasol, a ddechreuodd yn ystod y broses gaffael ei hun.

“Rydyn ni’n gwybod fod rhyngweithio rhwng pobl ar bob math o gamau gweithredu cymunedol yn helpu. Mewn gwirionedd, mae’n siŵr fy mod yn ceisio dod o hyd i rywbeth cadarnhaol, y ffaith gallai’r broses o drosglwyddo asedau gymryd dwy flynedd, os oes gennych chi grŵp eithaf cryf sy’n cydweithio, gallech chi greu cysylltiadau cymdeithasol go iawn, cyfalaf cymdeithasol a fyddai’n gwella llesiant neu’n cael effaith arno beth bynnag” (Cyfwelai o sefydliad cymorth cenedlaethol 2)

Ar ôl caffael, roedd y rhai a gyfwelwyd yn yr astudiaeth achos yn teimlo fod gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl leol yn y ganolfan, a’r cyfleoedd a gynigiwyd i ymgysylltu â phobl a phrosiectau, yn cael eu hystyried yn fuddiol i les y gymuned leol. Disgrifiodd un o gyfranogwyr y digwyddiad Cyfnewid Gwybodaeth effaith caffael ased lleol ar ei lesiant ei hun, gan ddweud: “mae’r lle hwn wedi achub fy mywyd, mae wedi fy nhynnu allan o’r tŷ ac rydw i wedi gwneud ffrindiau newydd”. Dywedodd un o’r rhai a gyfwelwyd yn yr astudiaeth achos y gallai’r cyfleoedd posibl i wirfoddoli yn y sefydliad ar ôl caffael, yn enwedig o ran darparu gwasanaethau iechyd a gofal, arwain at ragor o fanteision cadarnhaol i ofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth.

Casgliadau ac argymhellion

Nod yr astudiaeth hon oedd deall effeithiau prosesau caffael asedau ar rymuso, gwytnwch a lles cymunedau gwledig yng Nghymru. Aethom ati i edrych ar y prif rwystrau a’r ffactorau hwyluso o ran caffael asedau cymunedol gwledig ar lefel gymunedol, ymarferwyr a pholisi, a pha gymorth oedd ei angen i alluogi arfer gorau.

I grynhoi, dangosodd ein canfyddiadau nifer o rwystrau sy’n gysylltiedig â’r cyd-destun gwledig, yn fwyaf arbennig capasiti cyfyngedig cymunedau gwledig i ymgymryd â phrosesau caffael asedau oherwydd maint llai’r boblogaeth a’r gwirfoddolwyr sydd ar gael. Ar ben hynny, roedd cymunedau

gwledig yn wynebu heriau o ran cael gaffael ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i gaffael asedau, yn enwedig gan fod rhai aelodau allweddol o'r gymuned yn gorfod cynorthwyo ar nifer o brosiectau.

Teimlai ymatebwyr o gymunedau gwledig fod y broses awdurdod lleol yn anghyson, gyda gwahaniaethau o un ardal awdurdod lleol i'r llall o ran lefelau ymgysylltu a dehongli canllawiau. Ar ben hynny, teimlwyd bod diwylliant awdurdodau lleol yn peri problemau, gyda rhai awdurdodau'n osgoi risg, ddim yn ymddiried mewn cymunedau gwledig a'u galluoedd, a/neu ddim yn cefnogi'r syniad o berchnogaeth gymunedol yn fwy cyffredinol. Roedd hyn yn golygu bod profiadau gwahanol gymunedau gwledig yn wahanol iawn i'w gilydd yn dibynnu ar leoliad yr ased dan sylw a phwy oedd yn berchen arno. Gwelwyd hefyd bod prosesau awdurdodau lleol yn gymhleth, yn anodd mynd i'r afael â nhw, yn rhy fiwrocraidd, ac yn araf iawn, a phriodolwyd hyn yn rhannol i ddiffyg hyfforddiant ac adnoddau o fewn cynghorau.

Nid oes gan Gymru unrhyw ddeddfwriaeth ar hyn o bryd sy'n rhoi'r hawl i gymunedau brynu, gwneud cynnig am, neu geisio trosglwyddo tir neu asedau eraill. Teimlai ymatebwyr fod Cymru gryn dipyn 'ar ei hôl hi' o'i chymharu â gwledydd eraill y DU o ran pwerau deddfwriaethol a chanllawiau ar gyfer caffael asedau. Yn benodol, roedd teimlad nad oedd polisi'r llywodraeth wedi'i gydgyssylltu na'i gydlynw'n dda, ac er bod Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei hystyried yn 'adnodd rhagweithiol' roedd teimlad o hyd ei bod yn wynebu problemau gweithredu sylweddol.

Drwyddi draw, nododd ymatebwyr fod diffyg cyllid cyfalaf wedi'i dargedu ar gyfer caffael asedau cymunedol, yn enwedig mewn cyd-destun lle nad oedd cynghorau ond yn cynnig asedau i gymunedau gwledig am y gwerth llawn ar y farchnad. Credwyd mai Cronfa Perchnogaeth Gymunedol y DU oedd yr unig ffynhonnell gyllid sydd ar gael i grwpiau cymunedol gwledig, ond mae angen symiau sylweddol o arian cyfatebol, a theimlwyd fod hyn y tu hwnt i allu cymunedau gwledig o ran codi arian.

Roedd ein hymchwil yn tynnu sylw at effaith cael awdurdodau lleol cefnogol ac ymgysylltiol, a allai gydnabod rôl a gwerth grwpiau cymunedol gwledig o ran cymryd cyfrifoldeb am asedau. Mae sefydliadau cymorth lleol a chenedlaethol hefyd yn darparu cefnogaeth amhrisiadwy i gymunedau gwledig i ymdopi â phrosesau cymhleth o'r fath.

Gan ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol:

- Gall cymunedau gwledig chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau allweddol sydd wedi'u teilwra i anghenion allweddol poblogaethau lleol, yn aml mewn ffyrdd mwy effeithlon, fel y mae ein hastudiaeth achos yn y Trallwng yn dangos. I wneud hyn, mae angen cymorth polisi arnynt sy'n ystyried y cyd-destun gwledig, ac sy'n hwyluso mynediad at gyllid, yn ogystal â meithrin gallu grwpiau cymunedol lleol i'w galluogi i fynd ar drywydd asedau cyhoeddus.
- Mae'r canfyddiadau'n dangos bod angen i Lywodraeth Cymru gryfhau a thynhau pwerau a chanllawiau deddfwriaethol, a darparu gofyniad am fframwaith cenedlaethol effeithiol ar gyfer caffael asedau cymunedol.
- Mae ein hymchwil yn rhoi pwyslais penodol bod angen prosesau caffael asedau safonol, syml a chyson ar draws pob llywodraeth leol yng Nghymru. Gellid cynorthwyo hyn drwy osod dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus i gydymffurfio â chanllawiau deddfwriaethol. Ar ben hynny, byddai cymorth a hyfforddiant mewn perthynas ag adnoddau ar awdurdodau

lleol yn eu galluogi i ymgysylltu'n llawn â chaffael asedau cymunedol a'u gwreiddio yn eu harferion bob dydd.

- Byddai cymunedau gwledig yn cael eu cefnogi drwy gyflwyno cyllid cyfalaf strategol yn benodol ar gyfer caffael asedau cymunedol.

Er bod y dystiolaeth hon yn cyfrannu at faes datblygu pwysig ar gyfer polisi ac ymarfer yng Nghymru, rydym yn cydnabod bod yr ymchwil yn canolbwyntio'n benodol ar gymunedau gwledig, ac efallai nad yw safbwyntiau'r holl bobl a gyfwelwyd a'r rhai a gymerodd ran yn yr ymarferiad Cyfnewid Gwybodaeth yn cynrychioli holl boblogaethau cymunedau Cymru.